

CYNGOR SIR Y FFLINT

Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol 2018/19 a Blaenoriaethau 2019/20



Cynnwys

Adran 1	Cyflwyniad
Adran 2	Crynodeb y Cyfarwyddwr o Berfformiad
Adran 3	Sut mae pobl yn siapio ein gwasanaethau?
Adran 4	Hyrwyddo a gwella lles y rhai rydym yn eu helpu
SAG1:	<i>Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chydgyhyrchu canlyniadau lles personol y mae pobl yn dymuno eu cyflawni.</i>
SAG2:	<i>Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol pobl a'u lles emosiynol.</i>
SAG3:	<i>Cymryd camau i warchod a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed.</i>
SAG4:	<i>Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan yn y gymdeithas.</i>
SAG5:	<i>Cefnogi pobl i ddatblygu a chynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach.</i>
SAG6:	<i>Gweithio gyda a chefnogi pobl i gyflawni gwell lles economaidd, cael bywyd cymdeithasol, a byw mewn llety addas sy'n diwallu eu hanghenion.</i>
Adran 5	Sut ydym ni'n cyflawni yr hyn rydym ni'n ei wneud
	a) Ein gweithlu a sut rydym ni'n cefnogi eu rolau proffesiynol
	b) Ein hadnoddau ariannol a sut rydym ni'n cynllunio at y dyfodol
	c) Gweithio mewn partneriaeth, arweinyddiaeth wleidyddol a chorfforaethol, llywodraethu ac atebolrwydd
Adran 6	Cael gfael ar fwy o wybodaeth a dogfennau pwysig
	Rhestr termau
Atodiad 1	Data cyd-destunol a mesuryddion perfformiad cenedlaethol

Os ydych chi'n darllen yr adroddiad hwn ar-lein, mae dolenni yn yr adran olaf sy'n rhoi mwy o wybodaeth i chi am ein gwasanaethau, ein mentrau a dogfennau allweddol. Mae rhestr termau yn y cefn hefyd, a allai helpu i egluro geiriau a thermau anghyfarwydd.

Mae'r adroddiad yn nodi ein taith tuag at wella yn 2018/19 ac yn dangos sut rydym wedi annog lles trwy ein gwasanaethau. Os ydych chi'n derbyn gwasanaeth gennym, cofiwch ddweud wrthym a ydych chi'n credu bod yr adroddiad hwn yn adlewyrchiad teg o'ch profiadau dros y 12 mis diwethaf.

Rydym yn croesawu unrhyw sylwadau ac mae eich barn yn hanfodol os ydym ni am barhau i wella gwasanaethau i gyflawni eich canlyniadau chi.

Gallwch gysylltu â ni fel hyn:

Neil Ayling (Prif Swyddog)
Cyngor Sir y Fflint, Gwasanaethau Cymdeithasol
Ystafell y Prif Swyddog, Cam 1
Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 6NN
E-bost: neil.j.ayling@flintshire.gov.uk



Adran 1: Cyflwyniad

Dyma ein trydydd Adroddiad Blynyddol ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol sydd wedi'i baratoi dan ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, sydd eu dwy yn ei gwneud yn ofynnol yn statudol i'r Cyngor adrodd ar ei swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol yn flynyddol.



Mae'r ddeddfwriaeth hon yn canolbwyntio ar les, ac mae ein hadroddiad yn crynhoi'r prif bethau rydym yn eu gwneud yn Sir y Fflint i gefnogi ein preswylwyr mwyaf bregus. Mae'n disgrifio ein heriau, yn rhoi darlun i'n budd-ddeiliaid o'n perfformiad a sut rydym wedi gwella dros y flwyddyn ddiwethaf, ac yn nodi ein blaenoriaethau at y flwyddyn sydd i ddod. Mae'r budd-ddeiliaid yn cynnwys pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau, ein staff, aelodau etholedig, y cyhoedd, ein partneriaid, rheoleiddwyr a Llywodraeth Cymru Mae ymgysylltu â budd-ddeiliaid yn rhan annatod o'r hyn rydym ni'n ei wneud, ac mae'n dylanwadu ar ddatblygu ein gwasanaethau a chynllunio at y dyfodol.

Yn yr adroddiad, rydym yn gwerthuso ein perfformiad ochr yn ochr â blaenoriaethau gwella'r llynedd ac yn nodi ein blaenoriaethau at y flwyddyn nesaf. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar les ac maent yn gysylltiedig â'r chwe Safon Ansawdd Genedlaethol (SAG), sef:

	Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau lles personol y mae pobl yn dymuno eu cyflawni
SAG 2	Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol pobl a'u lles emosiynol
SAG 3	Cymryd camau i warchod a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed
SAG 4	Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan yn y gymdeithas
SAG 5	Cefnogi pobl i ddatblygu a chynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach
SAG 6	Gweithio gydag a chefnogi pobl i gyflawni gwell lles economaidd, cael bywyd cymdeithasol, a byw mewn llety addas sy'n diwallu eu hanghenion

Adran 2: Crynodeb y Cyfarwyddwr o Berfformiad

Croeso i'r wythfed adroddiad blynyddol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol Sir y Fflint a'n trydydd dan ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Pwrpas yr adroddiad yw ystyried sut rydym wedi perfformio yn 2018/19 a nodi ein blaenoriaethau a'n bwriadau at 2019/20.

Mae disgwyliad oes uwch a chymhlethdod anghenion yn cael effaith enfawr ar y galw am wasanaethau gofal cymdeithasol ac mae llawer o sôn am hyn. Mae cynni ariannol yn debygol o barhau am beth amser a'r her sy'n ein hwynebu yw darparu **gwasanaethau o ansawdd sy'n gost-effeithiol ac yn gynaliadwy. Mae cefnogaeth frwd i'r amcanion hyn yn holl bortffolios y Cyngor a gan ein cynrychiolwyr etholedig.** Yn 2018, bu i ni lansio **Strategaeth Rhianta Corfforaethol 2018-2023**, sy'n nodi sut y byddwn yn cydweithio i sicrhau bod plant dan ofal a rhai sy'n gadael gofal yn cael y gefnogaeth y maent ei hangen ac y maent yn ei haeddu. Mae cyflawniadau cynnar i rai sy'n gadael gofal yn cynnwys cynnig ar gynllun mentora yn y gweithle a gostyngiad i Dreth y Cyngor. Mae gweithio'n fwy doeth yn allweddol i'n gwaith ar draws pob maes gwasanaeth, ac mae ein **Strategaeth Ddigidol newydd yn cynnwys ein hamcan gorfforaethol i ddefnyddio technolegau digidol i wella gwasanaethau.**

Bu i ni fod yn llwyddiannus ar sawl achlysur y llynedd. Ym mis Medi, roeddem yn falch iawn o ennill **Gwobr Gofal Cymdeithasol Cymru** am ein gwaith i wella ansawdd bywyd pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal. Rhoddwyd y wobr am gyflawni **'canlyniadau gwych i bobl o bob oed trwy fuddsoddi i hyfforddi a datblygu staff'** ac roedd yn cydnabod ein dull arloesol mewn partneriaeth i ddatblygu'r gwasanaeth. Rydym yr un mor falch o'n rhan yn natblygiad **protocol hunan-esgeulustod Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru**, a gafodd **ganmoliaeth gref** yn seremoni'r Gwobrau yng Nghaerdydd, ac am y wobr a gafodd ein **Canolfan Cymorth Cynnar** yng ngwobrau Partneriaethau Datrys Problemau (PDP) Heddlu Gogledd Cymru ym mis Awst. Cafodd ein **hymrwymiad corfforaethol i greu cymunedau gwydn, cyfeillgar i bobl o bob oed** hefyd eu cydnabod yn y gwanwyn pan fu i'r Comisiynydd Pobl Hŷn gydnabod Coed-llai a Phontblyddyn yn swyddogol fel y **gymuned cyfeillgar i bobl o bob oed gyntaf yng Ngogledd Cymru.**

Mae'r uchafbwyntiau eraill yn cynnwys cyflwyno'r **Cynllun Cefnogaeth Gymunedol** i bobl sy'n byw ag anableddau, cynllun newydd yn dangos ein bod yn canolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar. Hefyd yn 2018, lansiwyd **Gwasanaeth**

Awtistiaeth Integredig Gogledd Cymru. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnig cyngor a chymorth nad oedd ar gael i bobl gydag awtistiaeth yn y gorffennol, ac mae hefyd yn rhoi canllawiau ar draws gwasanaethau'r Cyngor a phartneriaid, **gan ein helpu i gydweithio** a chefnogi'r rhai mewn angen. I gael mwy o gapasiti strwythurol wrth ddiwallu'r galw am wasanaethau gofal cymdeithasol, rydym wedi **parhau i fuddsoddi yn ein rhaglen gyfalaf.** Agorodd Cynllun Gofal Ychwanegol Lllyd Raddington yn y Fflint fis Hydref ac mae cynlluniau ar waith i ddatblygu cynllun arall yn Nhreffynnon o'r enw Plas yr Ywen. Rydym wedi buddsoddi mewn cyfleuster preswyl 32 ystafell wely newydd ger cartref gofal preswyl Marleyfield House i bobl hŷn ym Mwcle, ac yn Hwb Cyfle, canolfan ddydd newydd yn Queensferry ar gyfer pobl sydd ag anableddau dysgu. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghenion tai grwpiau bregus yn ein cymunedau y flwyddyn nesaf.

Ni fyddai unrhyw un o'r gwelliannau hyn yn bosib' heb **weithlu gweithgar, ymroddgar a thriw.** Mae timau ar draws ein gwasanaethau wedi ymdrechu i wella eu hymarfer sy'n seiliedig ar ganlyniadau, ac mae eu lles personol wedi'i gefnogi'n gorfforaethol trwy gyflwyno rhaglen cymorth i weithwyr **Gofal yn Gyntaf.** Mae canllawiau i reolwyr ar gefnogi staff gofal cymdeithasol trwy ddigwyddiadau trawmatig wedi'u cyhoeddi'n ddiweddar ac mae **Polisi Gweithio a Gofalu'r Cyngor** yn helpu staff i gael cydbwysedd rhwng cyfrifoldebau gofalu, gartref ac yn y gwaith.

Y flwyddyn nesaf, bydd **ein harloesedd a'r awch i wella gwasanaethau** yn golygu ein bod yn arwain ar **raglen ranbarthol i drawsnewid gwasanaethau anableddau dysgu** ar draws Gogledd Cymru, gan roi cyfle i ni gyfuno adnoddau i ddiwallu anghenion. Gan gydnabod bod angen buddsoddi yn ein gwasanaeth maethu, **y ni fydd y Cyngor cyntaf yng Nghymru i gyflwyno'r model Mockingbird sy'n cael ei gydnabod yn rhyngwladol.** Ar draws gwasanaethau'r Cyngor, byddwn yn parhau i ennyn **gwytnwch yn ein cymunedau**, a byddwn yn gweithio i greu ymagwedd yn seiliedig ar werth cymdeithasol yn ein gwaith i ddod â mwy o fuddion i gymunedau. Mae cynhwysiant yn cael ei annog ar lefel gorfforaethol, ac ein nod yw bod yn **Gyngor Cyfeillgar i Dementia cyntaf** Gogledd Cymru.

Bydd heriau sylweddol yn y flwyddyn sydd i ddod, gan gynnwys yn rhan o'n hymrwymiad i sicrhau bod lleoliadau preswyl i blant dan ofal yn nes at adref. Rydym yn llwyr gefnogi pwyslais Prif Weinidog Cymru ar leihau'r angen, mewn modd diogel, i blant dderbyn gofal a byddwn yn parhau i ehangu ein gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar i gefnogi teuluoedd a phlant i aros gyda'i gilydd. Wrth wynebu'r her hon ac eraill, **byddwn yn chwilio am ddatrysiadau arloesol a chreadigol.** Rydyn ni'n ystyried yr **hyblygrwydd cyllid** sydd ar gael i ni trwy gyfuno grantiau rhaglenni Llywodraeth Cymru yn gyfle cyffrous i fod yn fwy strategol wrth **datblygu gwasanaethau sy'n ataliol, yn integredig, yn gost-effeithiol ac yn gynaliadwy.** Bydd gweithio i ddatblygu hyn yn y gwasanaethau cymorth cynnar ac atal yn ein helpu ni i reoli'r galw am wasanaethau ac ymateb yn well i anghenion pobl leol.

Blaenoriaeth yr Uwch Dîm Rheoli yw parhau i ddiogelu a darparu cefnogaeth i aelodau mwyaf bregus ein cymuned, gan sicrhau nad yw'r pwysau cyllid parhaus yn rhoi pobl mewn perygl. Mae adrodd ar ein taith tuag at welliant yn flynyddol yn rhoi cyfle i ni edrych ar yr heriau rydym yn eu hwynebu wrth wneud hynny a chydabod y gwaith caled sy'n golygu ein bod yn gallu cyflawni.

Edrychwn ymlaen at fwy o lwyddiannau yn y flwyddyn sydd i ddod a diolch o waelod calon i'n staff a'n partneriaid am eu cyfraniad i wella canlyniadau a lles oedolion, plant, gofalwyr a theuluoedd ar draws Sir y Fflint. Diolchwn hefyd i'r unigolion sydd wedi caniatáu i ni rannu eu straeon er mwyn rhoi enghreifftiau o'r gwahaniaeth mae ein gwaith yn ei wneud.



Neil Ayling
*Prif Swyddog y Gwasanaethau
Cymdeithasol*



Y Cyngorydd Christine Jones
*Aelod Cabinet y Gwasanaethau
Cymdeithasol*



“Ni fyddai un o'r gwelliannau hyn yn bosib' heb weithlu gweithgar, ymroddgar a thriw.”

Adran 3: Sut mae pobl yn siapio ein gwasanaethau?

O ran Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, rydym eisiau datblygu gwasanaethau trwy gynnwys y bobl sy'n eu defnyddio, a dyma flas o'r modd rydym ni'n gwneud hynny.

Helpu pobl ifanc i gymryd rhan

Rhianta corfforaethol yw'r term rydym ni'n ei ddefnyddio i ddisgrifio ein cyfrifoldeb dros blant sy'n derbyn gofal. Mae'r ymrwymiad corfforaethol hwn yn un ar y cyd rhwng staff y Cyngor, aelodau etholedig a phobl eraill sy'n darparu cefnogaeth i blant rydym yn gofalu amdanynt. Yn 2018, bu i ni lansio **Strategaeth Rhianta Corfforaethol 2018-2023**, sy'n nodi beth y byddwn yn ei wneud i sicrhau bod plant dan ofal a rhai sy'n gadael gofal yn cael y gefnogaeth y maent ei hangen ac y maent yn ei haeddu. **Cyfrannodd barn a phrofiadau ein pobl ifanc at y Strategaeth**, ac mae'n canolbwyntio ar bwysigrwydd lleoliadau cartref sefydlog, cyfleoedd am addysg ac i ddysgu, hyrwyddo iechyd a lles a chyfleoedd hamdden a gwaith. Mae gwybod a deall beth mae plant a phobl ifanc ei angen yn hanfodol os ydym ni am wella eu canlyniadau, a dyma rai o'r ffyrdd rydym ni'n gwneud hynny.

Bright Spots

Rydym yn cefnogi rhaglen o'r enw **Bright Spots**, sy'n cael ei hariannu gan Gomisiynydd Plant Cymru. Yn gynnar yn 2018, gofynnwyd i'n holl blant dan ofal rhwng 4 ac 18 oed gymryd rhan mewn holiadur ar-lein. Roeddem am gael gwybod sut roeddent yn teimlo ynghylch eu cefnogaeth, eu perthnasoedd a'u cyfleoedd. Bu i 61 (36%) ymateb, a dyma rai o'r canfyddiadau allweddol:

Beth rydym yn ei wneud yn dda:

Mae'r rhan fwyaf yn teimlo'n ddiogel ac wedi setlo yn eu lleoliadau, ac yn ymddiried yn eu gofalwyr.

Mae mwy o bobl ifanc (96%) yn Sir y Fflint yn teimlo eu bod yn dysgu sgiliau byw o gymharu â phobl ifanc mewn awdurdodau eraill (86%).

Mae'r ysgol yn rhywbeth sy'n gweithio'n dda i'r holl blant iau rhwng 4 a 7 oed.

Beth mae angen i ni ei wella:

Sicrhau bod adolygiadau o drefniadau cyswllt yn ystyried barn pob plentyn.

Darparu cyfleoedd i bobl ifanc rhwng 11 a 18 oed ddatblygu hunanhyder a delwedd gadarnhaol ohonynt eu hunain.

Ystyried sut y gellid sicrhau pobl ifanc ynghylch y gefnogaeth y gallant ddisgwyl ei derbyn yn y dyfodol.

Young Voices Out Loud

Roedd aelodau o'n grŵp cyfranogi ar gyfer plant dan ofal a phlant sy'n gadael gofal ymysg y rhai a gymerodd ran yn yr holiadur **Bright Spots**. Mae'r grŵp hwn yn cyfarfod gyda'n Swyddog Cyfranogi'n rheolaidd ac yn 2018/19, fe newidiodd ei enw i **Young Voices Out Loud**. Mae wedi cymryd rhan mewn sawl ffordd, gan gynnwys grŵp rhanbarthol Voices from Care, ac wedi cyfarfod gyda phobl a chyrrff gan gynnwys Arolygiaeth Gofal Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru. Mae'r grŵp yn cynorthwyo i gynllunio a chynnal ein gwobrau blynyddol, **Balchder Sir y Fflint**, sef digwyddiad sy'n dathlu cyflawniadau ein plant dan ofal a rhai sy'n gadael gofal ac yn cydnabod cyfraniad eu gofalwyr. Mae'r Grŵp hefyd wedi creu rhestr o bethau i'w gwneud a pheidio â'u gwneud ynghlwm â thrin plant sy'n cael gofal maeth, ac mae'n gweithio gyda TGP Cymru, un o'r prif elusennau hawliau plant, gan gynnig syniadau ynghylch sut y gellid cyrraedd plant a phobl ifanc mewn gofal gyda chefnogaeth eirioli.

Rydym yn datblygu **Cynllun Gweithredu Rhianta Corfforaethol** gyda'n cydweithwyr ym meysydd iechyd ac addysg fel y gallwn fod yn benodol ynghylch sut y byddwn yn cyflawni'r ymrwymiadau sydd yn ein Strategaeth Rhianta Corfforaethol. Wrth wneud hynny, byddwn yn parhau i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc ac yn defnyddio'r canfyddiadau allweddol gan Bright Spots wrth ddatblygu'r Cynllun. Mae profiad un aelod o Young Voices Out Loud i'w weld yn y Strategaeth:

“Rydw i wedi cael profiad cadarnhaol mewn gofal ac roeddwn yn teimlo bod gen i gefnogaeth a bod rhywun yn gwrando arnaf i.” (Person ifanc)



Ymgysylltu â phobl leol: o gynllunio gwasanaethau i'w darparu

Cynllunio gwasanaethau newydd

Yn adran 4, rydyn ni'n sôn am ein **gwasanaethau cymunedol newydd sy'n cefnogi pobl sy'n byw ag anableddau**. Ar ôl adolygu ein gwasanaethau cyfredol sydd wedi'u comisiynu, bu i ni gyfarfod gyda grwpiau a defnyddwyr lleol yn cynrychioli pobl ifanc a hŷn i ddarganfod beth roeddent ei angen yn y dyfodol. Roedd themâu allweddol i'w gweld, gan gynnwys integreiddio gydag eraill, cludiant, cyfleusterau cymunedol, gwasanaethau ar gyfer pobl fyddar a chefnogaeth i bobl ag awtistiaeth. Yn ystod y broses gomisiynu, cynrychiolwyd y safbwyntiau hyn ar y panel sgorio a bu iddynt ddylanwadu ar ddatblygu'r manylion am y gwasanaeth ar gyfer contractau newydd a oedd yn cael eu dyrannu. Rhai o'r pethau y dywedodd pobl wrthym ni oedd:

“Fe ddylem ni fynd allan i'n cymuned a chymysgu – byddai'n ein hatal rhag bod yn unig.” (Person hŷn)

“Dwi wedi cael llond bol ar bobl yn gofyn i mi ddod ag aelod o fy rheulu.”

(Person â nam ar eu clyw yn siarad am y gallu i gael dehonglwyr)

“Bu'n rhaid i mi chwilio am beth oedd gan fy mhlentyn ar Google.”

(Rhiant yn siarad am gefnogaeth i blant ag awtistiaeth)

Adolygu sut mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu

Daeth Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 i rym yn Ebrill 2018. Mae'n canolbwyntio ar ansawdd ac effaith gwasanaethau ar y bobl sy'n eu defnyddio. Mae'r Ddeddf wedi ein hysgogi i ystyried sut y gallwn gynnwys y bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau gofal a chymorth yn well a sut rydym yn adolygu pa mor dda mae'r gwasanaethau'n perfformio. Rydym wedi gofyn i Taith, sefydliad annibynnol, i'n helpu i wneud hyn. Trwy gyfarfod defnyddwyr ein gwasanaethau, staff ac eraill, rydym yn gobeithio gweld sut mae canlyniadau cadarnhaol yn cael eu cyflawni, a nodi rhwystrau y mae'n rhaid i ni eu goresgyn. Bydd cyfarfodydd adolygu ansawdd yn cael eu cynnal o fis Ebrill 2019 ymlaen mewn gwasanaethau mewnol a bydd ein hadborth ymgysylltu'n ein helpu i farnu pa mor dda mae'n gwasanaethau'n gweithredu. Byddwn yn adrodd ar ein cynnydd y flwyddyn nesaf.

Cynlluniau at y dyfodol

Bydd ymgysylltu â defnyddwyr a budd-ddeiliaid eraill yn allweddol wrth ddatblygu ein rhaglen ranbarthol newydd, **Gyda'n Gilydd Gogledd Cymru: Gwasanaeth Di-dor ar gyfer Pobl sydd ag Anableddau Dysgu**. Bydd hyn yn gwella gwasanaethau anableddau dysgu ymhellach ar draws y rhanbarth ac fe ddwedwn fwy wrthoch chi am hyn yn Adran 4. Fe soniwn hefyd am **ein nod i fod yn Gyngor Cyfeillgar i Dementia cyntaf Gogledd Cymru**. Bydd hyn yn cynnwys gwaith cydgynhyrchu ac ymgysylltu sylweddol gyda phobl leol a phartneriaid trydydd sector, ac ar draws holl wasanaethau'r Cyngor. Bydd y broses yn cael ei harwain gan **Grŵp Llywio Cyfeillgar i Dementia sy'n cynnwys sawl cynrychiolydd**, a byddwn yn canolbwyntio'n arbennig ar hyn yn 2019/20.

Adran 4: Hyrwyddo a gwella lles y rhai rydym yn eu helpu

SAG1: Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chydgyhyrchu canlyniadau lles personol y mae pobl yn dymuno eu cyflawni.

Parhau i fodloni gofynion Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn rhoi pobl sy'n derbyn gofal a chefnogaeth wrth wraidd y broses arolygu. Arolygiaeth Gofal Cymru sydd bellach yn asesu sut mae gwasanaethau'n cyflawni canlyniadau lles pobl, ac mae'r Ddeddf yn gwella rôl a swyddogaethau adrodd yr Unigolyn Cyfrifol mewn sefydliadau darparu. Mewn gwasanaethau mewnol ac yn y sector annibynnol, mae ein tîm datblygu'r gweithlu'n cefnogi cofrestru'r gweithlu gofal cartref a'r wybodaeth fanylach sydd ei hangen ar gyfer rôl uwch Unigolyn Cyfrifol. Yn Adran 3, soniwyd am ein strategaeth ymgysylltu i ddatblygu ein gwasanaethau, a byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod llais defnyddwyr wrth galon sut rydym yn gweithio ac yn gweithredu'r Ddeddf uchod yn llwyddiannus.

Datblygu ymarfer yn seiliedig ar ganlyniadau

Ar draws ein timau gwaith cymdeithasol, rydym wedi parhau i ddatblygu ein prosesau a'n hymarfer er mwyn iddynt ganolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau. Yn y Gwasanaethau Oedolion, mae sesiynau adolygu grwpiau cymheiriaid yn ystyried enghreifftiau da o ganlyniadau a sut y gellid cefnogi'r unigolyn i'w cyflawni, ac mae grwpiau ymarfer creadigol yn cyfarfod i edrych ar ffyrdd arloesol ac unigryw o gyflawni canlyniadau sydd wedi'u pennu. Mae ein panel ansawdd yn ystyried ceisiadau gwaith cymdeithasol ar gyfer cyllid i wasanaethau, gan sicrhau bod yr holl waith papur yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn cael ei ysgrifennu, lle bo modd, yng ngeiriau'r unigolyn ei hun, ac mae mân newidiadau i fformat ein hasesiadau a'n cynlluniau gofal wedi cynorthwyo ein hymarferwyr i ganolbwyntio ar yr unigolyn yn hytrach na'r broses. Mae'r enghraifft hon yn dangos mantais ymarfer sy'n seiliedig ar ganlyniadau:

Yn dilyn arhosiad hir yn yr ysbyty, cytunodd dyn a'i weithiwr cymdeithasol y byddai cyfnod adsefydlu mewn cartref preswyl yn fuddiol. Yn ddibynnol ar gadair olwyn, fe gymerodd y dyn ddiddordeb mawr mewn gofalu am wlaŵ planhigion y cartref, ac yn fuan roedd yn cael ei adnabod fel y garddwr answyddogol.



Roedd ei waith, oedd yn bwysig i eraill, yn rhoi ymdeimlad o bwrpas iddo ac yn cyfrannu at ei wellhad corfforol. Mae'r dyn bellach yn byw'n annibynnol ac mae'n bwriadu troi ei ardd ei hun yn ardal tyfu ffrwythau a llysiau, gan egluro "Rydw i eisiau dod â'r gymuned at ei gilydd a rhoi cyfle i bobl fel fi sy'n sownd yn y tŷ drwy'r dydd fynd allan."

Gwella ansawdd bywyd pobl hŷn

Rydym yn parhau i gefnogi staff gofal preswyl i ddefnyddio ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn hyrwyddo lles pobl hŷn. Mae ein rhaglen yn cyflwyno cynllun achredu mewn cartrefi gofal ac yn defnyddio'r offeryn hunanasesu **Progress for Providers** i ddangos newid. Nid yw'r dull o weithio mewn partneriaeth yn gofyn am ragor o arian, dim ond i bawb sydd ynghlwm wneud pethau'n wahanol.

Dywedodd un rheolwr wrthym am ddyd a oedd â diagnosis o Alzheimer's a adawodd y cartref preswyl sawl gwaith heb roi gwybod i staff, gan achosi pryder sylweddol ynghylch ei ddiogelwch. Gan ddefnyddio'r proffil un dudalen, y siart gyfathrebu a'r cofnod dysgu, daeth i'r amlwg bod y dyn wastad wedi bod yn ymarferol iawn. Cafodd ei roi gyda'r un a oedd yn gwneud mân waith trwsio yn y cartref a'i gefnogi i'w gynorthwyo wrth wneud gwiriadau wythnosol. Dywedodd y rheolwr bod y staff bellach yn cydweithio i gefnogi'r dyn hwn i ddod i ddeall yr hyn sy'n digwydd iddo, gan ei weld fel rhywun sydd angen pwrpas, ac nid rhywun y mae'n rhaid iddynt ei rwystro rhag gadael yr adeilad heb rywun gydag o.

Ym mis Medi 2018, roeddem yn falch iawn pan enillodd y rhaglen **Wobr Gofal Cymdeithasol Cymru** ac fe gyrhaeddodd y rownd derfynol yng gwobrau Cymdeithas Rhagoriaeth y Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae Gwobrau Gofal Cymdeithasol Cymru'n cydnabod rhagoriaeth o fewn gofal cymdeithasol yng Nghymru, ac roedd y wobwr yn benodol am **ganlyniadau rhagorol i bobl o bob oed trwy fuddsoddi i hyfforddi a datblygu staff**. Mae sylwadau'r rhai a oedd ynghlwm yn sicr yn cyd-fynd â hyn:

“Mae staff yn fwy hyderus gan eu bod yn gweld ac yn addasu eu cymorth yn seiliedig ar yr hyn sy'n bwysig i bobl. Fel rheolwr, rydw i wedi gweld y rhaglen yn galluogi'r unigolion sy'n byw yma go iawn, gan sicrhau bod eu hystyriaethau a'u dymuniadau nhw wrth wraidd pob dim rydyn ni'n ei wneud.” *(Clare Roberts, Rheolwr Cartref Gofal Haulfryn yng Nghymau)*

“Mae Progress for Providers wedi bod yn amhrisiadwy wrth godi ymwybyddiaeth ymysg rheolwyr, perchnogion a staff gwasanaethau gofal ynghylch beth yw gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a sut y dylid ei ddarparu. Mae hyn wedi arwain at well ansawdd bywyd i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal.” *(Swyddog o Arolygiaeth Gofal Cymru)*

[Cliciwch yma i gael gwybod mwy am Progress for Providers.](#)

Hyrwyddo'r Gymraeg

Mae'n hanfodol bod ein gwasanaethau'n ystyried anghenion ieithyddol a diwylliannol pobl leol. Rydym yn cydnabod bod iaith yn ffactor allweddol i ennyn perthynas gadarnhaol ac rydym wedi gwneud newidiadau fel datblygu ein systemau TG i gofnodi dewis iaith. Mae defnydd o'r Gymraeg ymysg staff y Cyngor yn ymrwymiad corfforaethol ac mae gwaith ar fynd i gyrraedd yr holl Safonau Iaith Gymraeg, a ddaeth yn lle ein Cynllun Iaith Gymraeg yn 2016. Mae canran uchel, 87%, bellach wedi cwblhau'r asesiad sgiliau iaith Gymraeg ac rydym yn gweithio i hwn gyrraedd 100%. Rydym yn parhau i weithio'n galed i sicrhau bod pob gweithiwr wedi cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth o sgiliau Cymraeg sylfaenol a bod staff sy'n ymdrin â'r cyhoedd yn derbyn hyfforddiant mwy arbenigol os oes angen.

Ein blaenoriaethau ar gyfer 2019/20 fydd:

- Ehangu'r rhaglen Progress for Providers i gynnwys pobl hŷn sy'n byw gartref gyda gwasanaethau gofal cartref
- Gweithredu amcanion sydd yn y Strategaeth Ddigidol ac edrych ar dechnoleg newydd a thechnoleg gynorthwyol i wella gwasanaethau
- Cefnogaeth i weithredu'r Rhaglen Trawsnewid i Blant – ymyrraeth gynnar integredig a chymorth dwys i blant a phobl ifanc

SAG2: Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol pobl a'u lles emosiynol.

Gwasanaethau ychwanegol i bobl ag awtistiaeth

Amcangyfrifir bod Anhwylderau ar y Sbectwm Awtistig yn effeithio 1 o bob 100 o bobl, a bod nifer yn disgyn i fylchau rhwng gwasanaethau. Yn Adran 3, dywedom bod pobl leol wedi codi'r mater hwn. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo £13 miliwn hyd at 2021 i ddatblygu Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig ar draws Cymru ac ym mis Mehefin 2018, lansiodd **Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Gogledd Cymru**. Mae hwn yn cael ei gynnal ar y cyd gan Gyngor Sir y Fflint a'r Bwrdd Iechyd ar ran rhanbarth Gogledd Cymru ac mae'n cynnig cyngor a chymorth nad oedd ar gael yn y gorffennol i bobl sy'n cael eu heffeithio gan awtistiaeth. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau diagnostig newydd i oedolion, cefnogaeth i gyflawni canlyniadau personol i oedolion nad ydynt yn derbyn gwasanaethau statudol iechyd meddwl neu anabledd, a chyngor a chymorth i deuluoedd a gofalwyr plant sydd ag awtistiaeth. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn cynnig hyfforddiant, yn ymgynghori ac yn rhoi cyngor i wasanaethau eraill y Cyngor ac asiantaethau partner, **sy'n ein helpu i gydweithio i gefnogi pobl ag awtistiaeth**. Dywedodd un person:

KeyRing
... We're Life Changing



Leonard
Cheshire



Trawsnewid gwasanaethau ar gyfer pobl sydd ag anableddau dysgu

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn cynnal rhaglen ranbarthol a fydd yn trawsnewid gwasanaethau anableddau dysgu ar draws Gogledd Cymru. Trwy rannu adnoddau rhanbarthol ac arfer orau, nod **Gyda'n Gilydd Gogledd Cymru: Gwasanaethau Di-dor ar gyfer Pobl sydd ag Anableddau Dysgu** yw darparu cymorth integredig i bobl sydd ag anableddau dysgu, gan ymgysylltu'n llwyr gyda nhw a budd-ddeiliaid eraill o'u dylunio hyd at eu darparu. Bydd y prosiect yn canolbwyntio ar bum ffrwd waith allweddol, gan gynnwys datblygu asesiadau a chofnodion integredig, a chofnodi'r gweithlu rhanbarthol gyda sgiliau sy'n seiliedig ar werth. Yn rhanbarthol, rydym eisiau defnyddio ein hadnoddau'n effeithiol trwy gydweithio i greu gwasanaethau ac ateb y galw yn y dyfodol, a datblygu cymunedau cynhwysol lle gall pobl sydd ag anableddau dysgu wneud ffrindiau, creu perthnasoedd, a



datblygu cyfleoedd cymdeithasol a gwaith. Bydd defnyddio **technoleg gynorthwyol** yn greiddiol i'r gwaith hwn ac rydym eisiau datblygu sgiliau, gwybodaeth a hyfforddiant ynghylch potensial technolegau fel ffonau clyfar a chymorthyddion personol sy'n cael eu rheoli â'r llais i gefnogi pobl ag anableddau dysgu.

Datblygu cymunedau sy'n gyfeillgar i bob oed

Yn Sir y Fflint mae poblogaeth henoed fwyaf Gogledd Cymru, ac rydym ni wedi ymrwymo i ddatblygu cymunedau sy'n 'gyfeillgar i oed'. Cydnabuwyd yr ymrwymiad hwn yn y gwanwyn pan enwyd **Coed-llai a Phontblyddyn fel y gymuned gyntaf yng Ngogledd Cymru i gael ei hachredu gan y Comisiynydd Pobl Hŷn yn rhan o raglen 'Heneiddio'n Dda yng Nghymru'**. Yma, mae pobl leol wedi gwneud pethau sy'n annog pobl i fod yn rhan o fywyd yn y gymuned, gan gynnwys datblygu newyddlen "be sy' 'mlaen" a chaffi cymunedol. Mae gwaith tebyg yn cael ei wneud mewn dwy gymuned arall yn y Sir, sef Treffynnon a'r fro a phentrefi yr Hôb, Caergwrle ac Abermorddu. Gan fod nifer o weithgareddau bellach yn dibynnu ar **gysylltiad digidol**, mae gwasanaeth sâl mewn rhai ardaloedd gwledig ac adeiladau cymunedol yn broblem, ond mae gwaith ar fynd i **edrych ar gyfleoedd i wella trwy Dîm Menter ac Adfywio'r Cyngor**. Mae mynediad at gyfleoedd dysgu a gwaith i bobl hŷn yn her arall. Mae cyfleoedd dysgu a gwirfoddoli anffurfiol yn cael eu rhannu'n rheolaidd trwy ein rhwydwaith i bobl hŷn, ond mae cyllid ar gyfer addysg yn canolbwyntio'n bennaf ar addysg statudol a phellach, ac mae rhaglenni gwaith a hyfforddiant cenedlaethol yn targedu rhai rhwng 16 a 25 oed. Mae angen mynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail oedran yn genedlaethol er mwyn rhoi cyfleoedd gwirioneddol gyfartal i bobl hŷn.

Ymdrin ag unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol

Mae unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol yn faterion sy'n effeithio ar bobl o bob oed ac maent yn gysylltiedig â llu o broblemau seicolegol a chorfforol. Mae pobl sydd angen gofal a chymorth yn benodol agored i niwed ac **ni allwn fynd i'r afael â'r problemau hyn ar ein pennau ein hunain**. Ar draws holl wasanaethau'r Cyngor, rydym wedi ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar **Gymunedau Cysylltiedig – Mynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol**. Yn lleol, rydym wedi creu grŵp ffocws i helpu i ddod o hyd i bobl hŷn a allai fod mewn perygl ac ystyried sut y gallem wella eu cysylltiad â'u cymunedau lleol. Ynghyd â'n cydweithwyr ym maes tai, grwpiau cymunedol a sefydliadau partner (gan gynnwys Age Connects, Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru), rydym wedi datblygu offeryn atgyfeirio **Creu Cysylltiadau** i'w defnyddio mewn **gwiriadau diogelwch tân mewn cartrefi**, gan helpu pobl i fynd i weithgareddau lleol, cludiant cymunedol a chymorth arbenigol.

Creu cymunedau cryf

Mae rhai cymunedau angen cymorth penodol i helpu i atal unigrwydd, arwahanrwydd cymdeithasol a heriau eraill. Mae **gwytnwch cymunedol** yn derm sy'n cyfeirio'n fras at allu cymunedau i wrthsefyll a dod yn ôl o sefyllfaoedd anffafriol, a dyma rai o'r ffyrdd yr ydym ni'n creu gwytnwch yn Sir y Fflint:

Adfywio cymunedol

Mae'r heriau sy'n wynebu rhai o breswylwyr Sir y Fflint, gan gynnwys y rhai sy'n byw ar ystâd dai Holway yn Nhreffynnon, yn cynnwys tlodi, camddefnyddio sylweddau, troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Ynghyd â'n partneriaid yn y trydydd sector, rydym eisiau gwneud gwelliannau cynaliadwy sydd wedi'u hysgogi gan aelodau ac arweinwyr o'r gymuned. Yn Holway, mae'r rhain yn cynnwys trefnu sesiynau chwarae wythnosol i blant, a darparu prydau poeth maethlon dros ylliau'r ysgol. Rydym yn buddsoddi i gynnal a chadw eiddo, gerddi ac ardaloedd cymunedol, ac rydym eisiau ailwampio'r ffordd rydym am ddarparu rhai o'n gwasanaethau cyngor a chymorth fel y gall pobl gael mynediad at y rhain yng nghanol eu cymunedau. Wrth wneud hynny, byddwn yn defnyddio'r hyn rydym wedi'i ddysgu o ddatblygu ein Canolfan Cymorth Cynnar, ac fe soniwn am hon yn nes ymlaen.

Beth am Symud Sir y Fflint

Trwy ei fenter **Beth am Symud**, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru'n annog cymunedau a gweithluoedd i symud mwy. Mae'r Cyngor wedi gafael yn hyn ac mae'n cefnogi'r gweithlu i gynnwys gweithgarwch corfforol yn y diwrnod gwaith. Un enghraifft yw cyhoeddi mapiau cerdded ar gyfer y swyddfeydd. Mae prosiect cymunedol yn targedu plant ysgol yn y Fflint yn fenter arall sy'n cael ei datblygu, gyda phwyslais ar lwybrau cerdded i'r ysgol a defnyddio manau gwyrdd yn ystod y diwrnod ysgol.

Rhagnodi Cymdeithasol

Ar y cyd â Chyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint ac wedi'i ariannu trwy'r Gronfa Gofal Integredig, rydym wedi penodi **Cydlynnydd i'r Trydydd Sector yn ein gwasanaeth Un Pwynt Mynediad**. Mae'r rôl yn canolbwyntio ar gefnogi pobl i nodi beth sy'n bwysig iddynt a chyflawni'r amcanion hyn gyda chymorth gan y trydydd sector. Ym Mawrth 2019, penodwyd unigolyn arall i'r tîm fel **Rhagnodwr Cymdeithasol** gyda chylch gorchwyl penodol i greu cysylltiadau â meddygfeydd cymunedol a'u hannog i gyfeirio cleifion â phroblemau anghlinigol at yr Un Pwynt Mynediad. **Gellir cysylltu â'r Un Pwynt Mynediad ar 01352 804443**



Datblygu ein cymunedau sy'n gyfeillgar i ddementia

Gyda dementia'n dod yn fwy cyffredin, mae ein **Cynllun Gweithredu ar Ddementia** yn parhau i'n helpu i dargedu'r pethau sy'n effeithio ar y rhan fwyaf sy'n cael eu heffeithio. Mae stigma, unigrwydd a chymryd rhan ymysg y materion hyn, ac mae ein Cynllun yn annog gweithredoedd sy'n hyrwyddo **cyfrifoldeb cymunedol, corfforaethol a chymdeithasol** wrth fynd i'r afael â nhw.

Mae ein **saith cymuned cyfeillgar i ddementia**, sy'n cynrychioli'r Sir gyfan, yn cynnal nifer o weithgareddau a mentrau sydd wedi bod yn bosib' oherwydd gwaith ar y cyd rhwng sefydliadau a phobl leol. Rhai enghreifftiau yw dangos ffilmiau yn Theatr Clwyd a sinema'r Fflint, a'r **wyth Caffi Cofio cymunedol**. Mae datblygiadau eraill yn cynnwys prosiectau rhwng cenedlaethau sydd wedi ariannu sesiynau ymwybyddiaeth o ddementia i ysgolion lleol, a darparu therapi fel gweithgareddau gydag anifeiliaid. Mae cysylltiadau â chartrefi gofal yn sicrhau bod eu trigolion yn gallu cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn, ac mae cyfraniad gwerthfawr gwirfoddolwyr yn cael ei gydnabod trwy gynllun gwobrwyo Tempo Time Credits.

I un ddynes, roedd cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfeillgar i ddementia gyda'i gŵr yn ei helpu i barhau i ofalu am ei gŵr cyn iddo waethygu a chael ei dderbyn i gartref gofal. Mae hi'n dal i gymryd rhan ac mae'n aelod gweithgar o grŵp llywio ei chymuned cyfeillgar i ddementia, sy'n rhoi pwrpas iddi wrth iddi addasu i fyw ar ei phen ei hun.

Ein her yw rhoi strwythur i'n cymunedau cyfeillgar i ddementia a fydd yn eu helpu i rannu adnoddau, cynnal yr hyn sydd wedi'i gyflawni a chyflawni llawer mwy. Mae hyrwyddo cynhwysiant trwy ddealltwriaeth yn berthnasol i staff ar draws holl wasanaethau'r Cyngor, a nifer o'r rheini'n dod i gysylltiad rheolaidd â phobl sydd wedi'u heffeithio gan ddementia. I gadarnhau ein hymrwymiad i gefnogi pobl sy'n cael eu heffeithio gan ddementia, **rydym yn bwriadu gweithio gyda'n partneriaid a phobl leol i fod yn Gyngor Cyfeillgar i Ddementia**.

Ein blaenoriaethau yn 2019/20 fydd:

- **Gweithio tuag at fod yn Gyngor Cyfeillgar i Ddementia sy'n cefnogi gwaith pontio'r cenedlaethau a therapiau amgen**
- **Cynnal y Gwasanaeth Anabledau Dysgu Rhanbarthol i drawsnewid gwasanaethau ar gyfer pobl sydd ag anabledau dysgu a chwarae rhan flaenllaw yn y Rhaglen Drawsnewid Rhanbarthol ar gyfer ieched meddwl, gwasanaethau i blant a chymorth cymunedol**
- **Cefnogi adeiladu cymunedau gwydn trwy ddatblygu'r rôl rhagnodi cymdeithasol yn yr Un Pwynt Mynediad**

SAG3: Cymryd camau i amddiffyn a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed.

Gwella ein prosesau diogelu

Mae ein Huned Ddiogelu'n parhau i roi gwybodaeth, cyngor, canllawiau a chymorth i sefydliadau annibynnol a sector cyhoeddus, timau mewnol a'r cyhoedd ac mae'n darparu hyfforddiant rheolaidd ar gynadleddau achosion amddiffyn plant, diogelu oedolion, galluedd meddyliol a Threfniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Rydym wedi gwella ein llwybr atgyfeirio i oedolion o'r Un Pwynt Mynediad trwy'r Uned, sy'n helpu i allu cymryd camau cadarn a chyson i warchod a diogelu unigolion.

Mae datblygiadau rhanbarthol yn cynnwys gweithredu protocolau celcio a hunan-esgeulustod yn llwyddiannus, wedi'u datblygu gan **Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru**. Mae'r Protocol Celcio'n nodi fframwaith i ofal cymdeithasol ac asiantaethau perthnasol eraill weithio mewn partneriaeth gan ddefnyddio model sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn seiliedig ar ddatrysiadau, a chynnig canllawiau clir i staff sy'n gweithio gyda rhai sy'n celcio. Datblygwyd **Protocol Hunan-esgeulustod Rhanbarthol Gogledd Cymru** i asesu risgiau a chytuno ar gamau cydlynol rhwng asiantaethau partner pan oedd pobl yn eu hesgeuluso eu hunain. Mae wedi rhoi templed cyffredin i asesu lefelau esgeulustod ac mae'n sicrhau bod asiantaethau'n cydweithio ac yn rhannu gwybodaeth mewn achosion felly. Roedd y protocol yn un o dri phrosiect oedd ar restr fer am wobwr **dulliau effeithiol i ddiogelu yng Ngwobrau**

Gofal Cymdeithasol Cymru ym mis Medi 2018, lle cafodd **ganmoliaeth gref**. Rydym yn falch bod ein Rheolwr Diogelu Oedolion wedi cael cyfweiliad yn rhan o fideo'r cyflwyniad ar gyfer y seremoni.

[Cliciwch yma am fwy am Brothocol Hunan-esgeulustod Rhanbarthol Gogledd Cymru](#)

Gwella ein hymarfer diogelu

Mae edrych yn ôl ar ein hymarfer proffesiynol wedi bod yn ffocws allweddol i ni ac ym mis Rhagfyr 2018, cynhaliodd y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ei ddigwyddiad amlasiantaeth cyntaf i rannu gwybodaeth o adolygiadau oedolion, plant a dynladdiad domestig. Roedd hwn yn caniatáu i ymarferwyr rannu gwersi a ddysgwyd o achosion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a gwella arferion gwaith. Mae'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn sicrhau bod yr holl argymhellion sy'n deillio o adolygiadau'n cael eu gweithredu, ac mae'i wefan yn cynnwys gwybodaeth am themâu allweddol adolygiadau ymarfer plant ac oedolion.

Roedd un adolygiad ymarfer plant yn dangos nad oedd meddygon teulu wastad yn rhannu gwybodaeth mewn cynadleddau achosion amddiffyn plant. Mae hyn yn benodol arwyddocaol wrth ystyried meddyginiaethau sy'n cael eu rhoi i blant ac mae'n hynod berthnasol mewn achosion o esgeulustod. O ganlyniad i argymhellion yr adolygiad, diwygiodd y Bwrdd Iechyd fformat adrodd meddygon teulu i gynadleddau amddiffyn plant gan ychwanegu cwestiwn penodol ynghylch meddyginiaeth. Mae'r templed hwn bellach wedi'i gynnwys yn rhan o ymarfer Sir y Fflint.

Datblygu cymorth eirioli

Mae rhai pobl sydd ond yn gallu gwneud penderfyniadau pwysig gyda chefnogaeth eiriolwr annibynnol ac mae'r gefnogaeth hon yn benodol bwysig i ddiogelu. Yma, mae gwasanaethau eirioli'n cael eu defnyddio fel cynrychiolwyr unigolion perthnasol mewn asesiadau Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, ac mewn cynadleddau achosion amddiffyn plant, i rieni sydd efallai heb unrhyw gymorth arall. Pan dderbynnir adroddiadau diogelu oedolion, ystyrir bob tro a yw gwrthrych yr atgyfeiriad angen eiriolwr annibynnol i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed.

Mae pwysigrwydd eiriolaeth i'w weld yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n dweud y dylai grwpiau ehangach o bobl gael mynediad at gymorth eirioli nag sydd wedi cael yn y gorffennol. Datblygodd y Ddeddf y syniad am **Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol**, ac rydym ni wedi gweithio gydag Age Cymru i gynnwys gwasanaeth statudol Eirioli Proffesiynol Annibynnol yn ein trefniadau comisiynu. Wrth wneud hynny, bu i ni wrando ar ddefnyddwyr ein gwasanaethau eirioli, a ddywedodd fod angen gwell gwybodaeth am eiriolaeth. Mae darparu gwybodaeth dda yn ofynnol o dan y Ddeddf, a bu i ni gynnwys hyn ym manylion

gwasanaeth y contract. Yn y gorffennol, roedd gennym sawl contract eiriolaeth ar waith, ond bellach, mae gennym dri ac mae gwahoddiad i bob darparwr ddod i'n cyfarfodydd tîm; datblygiad sy'n cyfrannu ymhellach at ddatblygu a rhannu gwybodaeth eirioli dda.

Gweithio i atal camfanteisio rhywiol ar blant

Canmoliaeth i'n Tîm Cyswllt â Dioddefwyr

Mae proffesiynoldeb ac ymrwymiad ein Tîm Cyswllt â Dioddefwyr wedi'i ganmol gan Heddlu Gogledd Cymru a Heddlu Swydd Gaer. Mae'r tîm wedi bod yn rhan allweddol o gael pobl sy'n rhan o fasnachu mewn plant at ddibenion camfanteisio arnynt yn rhywiol yn euog ac mae wedi cefnogi dioddefwyr i gynnal gofal i'w plant a chael tai addas.

Missing Exploited Trafficked

Sefydlwyd y Grŵp Strategol MET (*Missing Exploited Trafficked*) yn Sir y Fflint a Wrecsam ym mis Chwefror 2018 gan gydnabod yr angen i ehangu'r drafodaeth ynghylch camfanteisio'n rhywiol ar blant. Mae'r grŵp yn cael ei gefnogi gan ddau grŵp gweithredol ac mae'n dod â phartneriaid o asiantaethau statudol a'r trydydd sector ynghyd i rannu data a dadansoddi patrymau a thueddiadau. Mae hyn wedi rhoi gwell dealltwriaeth i ni o'r materion penodol sy'n effeithio arnom yn rhanbarthol ac mae'n ein galluogi i ddod o hyd i ardaloedd problemus i Heddlu Gogledd Cymru eu targedu. Datblygiad allweddol arall yw creu swydd **Cydlynnydd Pobl ar Goll Sir y Fflint**. Ers creu'r swydd ym mis Ionawr 2019, mae'r Cydlynnydd yn cynnal yr holl gyfweiliadau **dychwelyd adref** i blant ar goll, ynghyd â chasglu data a rhoi gwybod am bobl ar goll trwy Heddlu Gogledd Cymru a Grŵp Strategol MET.

Ein blaenoriaethau yn 2019/20 fydd:

- **Sicrhau bod yr holl blant sydd wedi'u cofnodi fel rhai sy'n dianc o gartref neu o ofal yn cael cyfweiliad dychwelyd**
- **Gweithredu Gweithdrefnau Diogelu newydd Cymru Gyfan ar gyfer Oedolion a Phlant**

SAG4: Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan yn y gymdeithas

Adolygu sut rydym yn comisiynu ac yn prynu

Cytundeb Gofal Cartref Gogledd Cymru

Mewn ymateb i'r fframwaith deddfwriaethol newydd yng Nghymru, roeddem yn rhagweld darparwyr gofal cartref lleol yn cyfrannu at asesu yn seiliedig ar ganlyniadau a chynllunio gofal, gan gefnogi galluogi pobl a helpu i leihau dibynedd ar ofal a chymorth wedi'i reoli lle bo modd. Roeddem eisiau eu helpu i gyflawni'r nodau hyn trwy greu clystyrau o becynnau gofal, lleihau amser teithio a chynnig rhywfaint o sicrwydd o ran busnes. Ynghyd â'r chwe awdurdod iechyd a chomisiynu arall yng Ngogledd Cymru, rydym ni wedi cyfrannu at brosiect sydd wedi sefydlu **Cytundeb Gofal Cartref Gogledd Cymru**.

Pan oedd un o'n darparwyr gofal cartref yn wynebu anawsterau, roedd defnyddio'r Cytundeb yn caniatáu i ni gomisiynu pecynnau gofal yn rhwydd ac yn ddiogel gyda darparwyr eraill, a'r canlyniadau i unigolion oedd cyn lleied â phosib' o amhariad a straen.

Rydym yn gweithio'n galed i wneud trefniadau eraill i gontractau'n fwy cadarn ac rydym wedi cwblhau **cytundeb preswyl cyn lleoli i blant a phobl ifanc**. Y flwyddyn nesaf, byddwn yn edrych ar ein trefniadau i gontractau ar gyfer **oedolion sy'n byw mewn lleoliadau byw â chymorth**, yn rhan o'n hymrwymiad i wella gwasanaethau anabledau dysgu yn Sir y Fflint.

Taliadau uniongyrchol

Ym mis Ebrill 2019, lanswyd ein **Gwasanaeth Cefnogi Taliadau Uniongyrchol newydd**. Mae hwn yn cael ei ddarparu gan dîm mewnol newydd sy'n cefnogi pobl i edrych ar ffyrdd creadigol ac arloesol o ddefnyddio eu taliadau uniongyrchol. Bydd y gwasanaeth newydd yn darparu platfform digidol, sy'n cysylltu pobl â chymorthyddion a gofalwyr personol, ac yn darparu mynediad 24 awr at gyngor a chymorth cyfreithiol.

Modelau gofal newydd

I helpu i ateb y galw gan boblogaeth sy'n heneiddio, rydym wedi bod yn ystyried ffyrdd newydd ac arloesol o ddatblygu'r sector gofal lleol. Mae hyn yn cynnwys edrych ar ymarferoldeb **gwasanaethau gofal ar raddfa fach**, sefydliadau bach sy'n darparu gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Y flwyddyn nesaf, byddwn yn gweithio i ddatblygu amgylchedd lle gall mentrau gofal bach ffynnu.

Gwerth cymdeithasol

Mae gwerth cymdeithasol yn gysyniad sy'n gofyn i ni feddwl am bethau y tu hwnt i werth ariannol sy'n bwysig i ni. Mae'n golygu edrych y tu hwnt i bris pob contract unigol rydyn ni'n ei ddyrannu ac ystyried budd cyffredinol i'n cymunedau wrth ddewis ei ddyrannu. Rydym wedi datblygu **Grŵp Gweithredu Gwerth Cymdeithasol** traws-adrannol i'n helpu i gyflawni ein dyletswyddau deddfwriaethol ynghylch gwerth cymdeithasol a deall pwysigrwydd ystyried a mesur gwerth cymdeithasol o safbwynt rhai mae ein gwaith yn cael effaith arnynt. Bydd ein **Strategaeth Gwerth Cymdeithasol** yn ein helpu i wneud hyn yn ogystal â helpu'n hymdrechion i ennyn gwytnwch cymunedol yn Sir y Fflint.

Cefnogi teuluoedd gyda gofal plant di-dâl

Mae ein **Gwasanaeth Blynnyddoedd Cynnar a Chymorth i Deuluoedd** wedi parhau i arwain y ffordd i sicrhau bod rhieni sy'n gweithio'n gallu elwa o gynnig gofal plant di-dâl Llywodraeth Cymru i rai 3 a 4 oed. Mae'r Gwasanaeth wedi'i ariannu i weithredu'r cynllun yn Sir Ddinbych ac yn Wrecsam, ac mae wedi bod yn flwyddyn brysur yn sicrhau ei fod yn cael ei weithredu'n llawn yn y siroedd. Mae dros 3,000 o geisiadau wedi'u derbyn, ac mae'r cynllun yn cefnogi teuluoedd i gymryd rhan yn y gweithle ar draws y rhanbarth.

Darparu cyfleoedd dydd a gwaith i bobl sydd ag anabledau dysgu

Ym mis Chwefror 2018, dechreuodd Hft, elusen anabledau dysgu genedlaethol, ddarparu ein cyfleoedd dydd a gwaith i bobl ag anabledau dysgu, a darparu cefnogaeth hyfforddwr swydd i dros 100 o bobl mewn lleoliadau gwaith ar draws Sir y Fflint. Trwy ymgysylltu â busnesau ac elusennau lleol, mae un ar ddeg o bobl wedi'u cefnogi i gael gwaith cyflogedig ac mae eraill wedi cael lleoliadau gwirfoddoli newydd mewn ysbytai, siopau a busnesau lleol. Mae Hft yn datblygu partneriaethau gyda sefydliadau o'r sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i greu cyfleoedd gwaith, addysg a hamdden newydd i bobl sydd ag anabledau dysgu, ac mae wedi casglu dros £30,000 o incwm ychwanegol trwy godi arian i fuddsoddi mewn gwasanaethau. Mae cynlluniau ar waith i greu rhaglen cefnogi cyflogaeth o'r enw **Prosiect Chwilio**, a fydd yn cael ei chynnal ar y cyd â Grŵp Tai Pennaf, Coleg Cambria a phartneriaid eraill. Gyda'i llwyddiant blaenorol, bydd yn cefnogi grŵp o bobl ifanc rhwng 18 a 24 oed sydd ag anabledau dysgu i ddod yn interniaid a hyfforddi mewn lleoliadau gwaith am ddeuddeg gyda'r nod o ddod o hyd i waith cyflogedig.

[Claciwch yma i gael gwybod mwy am waith Hft](#)

Helpu rhai sy'n gadael gofal

Hwb i ragolygon gyrfaol

Mae plant dan ofal a phlant sy'n gadael gofal yn parhau'n un o grwpiau mwyaf bregus ein cymdeithas. Rydym wedi bod yn gweithio'n galed i wella profiadau pobl ifanc sy'n gadael gofal gyda ffocws penodol ar hyrwyddo cyfleoedd gwaith. Yn Saesneg, mae BOOST yn fyrfodd am '**Be Optimistic about Opportunities for Support and Training**' ac fe gafodd ei gyflwyno ym mis Ebrill 2018. Mae'n gynllun mentora corfforaethol i rai 16 oed a hŷn sy'n gadael gofal ac mae'n cynnig profiad gwaith iddynt am ddiwrnod yr wythnos am ddeuddeg wythnos. Mae hyn yn rhoi blas i bobl ifanc ar weithio mewn maes sydd o ddiddordeb iddynt ac mae'n darparu cymorth mentor iddynt. Ar ôl ei gwblhau, mae gan berson ifanc brofiad ar gyfer eu CV, geirda a chyfle i ymarfer sgiliau cyfweiliad, sydd i gyd yn hwb i'w siawns o gael gwaith. Hyd yma, rydym wedi cael pum lleoliad gyda chymorth Hamdden Aura, Strydwedd, Cartref Gofal Marleyfield a Neuadd y Sir ac mae un person ifanc wedi cael gwaith cyflogedig. Daeth pedwar lleoliad i ben oherwydd diffyg presenoldeb, ond rydym yn dal i weithio gyda'r bobl ifanc i gael mwy o brofiad gwaith iddynt trwy gynllun BOOST. Rydym bellach yn gwybod y byddai gwaith cefnogi cyn y lleoliad o fudd i'r bobl ifanc er mwyn cynyddu eu siawns o lwyddo.



Gostyngiadau Treth y Cyngor

Gall rheoli cyllidebau fod yn anodd iawn i'r rhan fwyaf o bobl, ond yn enwedig i rai sy'n gadael gofal sydd fel arfer heb lawer o rwydweithiau cymorth gan eu teuluoedd ac sy'n gorfod talu biliau'n ifanc. Mae'r Comisiynydd Plant wedi tynnu sylw at hyn ac rydym ni ar flaen y gad o ran ymateb iddo trwy gytuno ar **bolisi nodweddiadol a fydd yn sicrhau gostyngiadau yn Nhreth y Cyngor i bobl ifanc sydd wedi gadael gofal i fyw'n annibynnol**. Mae'r rhan fwyaf o'r rhai sy'n gadael gofal â hawl i rywfaint o ostyngiad ar Dreth y Cyngor, ac mae dyraniadau o £1,900 wedi bod hyd yma.

SAG5: Cefnogi pobl i ddatblygu a chynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol yn ddiogel

Cymorth dwys i deuluoedd

Gall plant ddod i mewn i'r system ofal ar wahanol adegau yn eu bywydau ac am lu o resymau. Gall y rhain amrywio o ddirywiad yn sefyllfa'r teulu, cam-drin neu esgeulustod hyd at drefniadau gwirfoddol i gefnogi lles plant tra mae gwaith yn cael ei wneud i ailadeiladu perthnasoedd neu'r gallu i fod yn rhiant. Mae dros 200 o blant yn derbyn gofal yn Sir y Fflint. Er bod y rhan fwyaf yn byw gyda'u rieni, rhieni maeth neu ofalwyr sy'n berthnasau, mae cyfran fechan o tua 10% ag anghenion mwy cymhleth ac angen lleoliadau preswyl cefnogol. Rydym yn ymrwymo i ddarparu lleoliadau diogel, lleol o ansawdd uchel i'r plant a'r bobl ifanc hyn, ond mae heriau sylweddol wrth wneud hynny. Mae **Strategaeth Leoliadau ein Gwasanaethau Plant** yn nodi sut y byddwn yn goresgyn yr heriau hyn ac yn **gwella canlyniadau ar gyfer ein plant dan ofal**. Fel sy'n wir am sawl maes arall yn ein gwaith, mae'r Strategaeth yn canolbwyntio ar **atal ac ymyrraeth gynnar**. Rydym eisiau lleihau a rheoli'r galw am lleoliadau preswyl ac un ffordd i ni wneud hyn yw darparu **gwasanaethau cymorth dwys i deuluoedd**.

Canolfan Cymorth Cynnar

Mae ymchwil yn dangos bod buddsoddi mewn gwasanaethau cymorth cynnar yn gallu atal plant rhag mynd i'r system gofal cymdeithasol a helpu i reoli anghenion teuluoedd i'w hatal rhag gwaethygu. Wedi'i sefydlu fis Gorffennaf 2017, mae'r **Ganolfan Cymorth Cynnar** yn bartneriaeth rhwng y Cyngor, Heddlu Gogledd Cymru, y Bwrdd Iechyd a Chyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint, ac mae'n fenter allweddol yn ein buddsoddiad mewn **gwasanaethau ataliol i deuluoedd**. Mae'r Ganolfan yn ceisio rhoi mynediad i deuluoedd plant sydd wedi cael **Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod** at y wybodaeth a'r cyngor cywir ar yr adeg cywir, gan wella eu gwytnwch a lleihau galw ar wasanaethau statudol. Mae'r asiantaethau sy'n creu'r Ganolfan Cymorth Cynnar yn rhannu gwybodaeth ac yn cydlynu ymateb cynnar, gan gefnogi teuluoedd heb fod angen ymyrraeth statudol. **Rydym yn falch bod gwaith y Ganolfan wedi cael ei gydnabod pan enillodd wobr yng ngwobrau Partneriaethau Datrys Problemau Heddlu Gogledd Cymru fis Awst.**

[Cliciwch yma i gael gwybod mwy am ein Canolfan Cymorth Cynnar](#)

Cymorth therapiwtig ar gyfer iechyd meddwl ac emosiynol

Mae help sydd ar gael i blant sydd angen cymorth iechyd meddwl ac emosiynol yn cael ei godi fel pryder yn gyson. Ar draws Gogledd Cymru, mae galw mawr am Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc arbenigol. Mae nifer yr atgyfeiriadau'n fwy na chapasiti'r gwasanaeth i ymateb. Mae'r sefyllfa'n waeth oherwydd y gyfran uchel o atgyfeiriadau sy'n ymwneud â phobl ifanc sydd â phroblemau emosiynol, ymddygiadol ac iechyd meddwl, gyda chynnydd penodol ymysg plant sy'n cael trafferthion ag ymlyniad a hunan-niweidio. Nid yw'r anghenion hyn yn cyrraedd y trothwy am gymorth iechyd meddwl arbenigol gan Wasanaethau Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifanc ac, yn rhanbarthol, mae cydnabyddiaeth glir y dylai fod **gymorth therapiwtig** i'r plant hyn a'u teuluoedd. Mae cynghorau a Bwrdd Iechyd Gogledd Cymru wedi sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu gwasanaethau integredig mewn lleoliadau cofrestredig, sy'n cael eu galw'n 'ganolfannau asesu a chymorth'. Bydd y rhain yn cefnogi pobl ifanc â phroblemau emosiynol, ymddygiadol ac iechyd meddwl ond nad oes ganddynt anhwylder iechyd meddwl y mae posib' cael diagnosis ar ei gyfer. Mae risg uchel i'r bobl ifanc hyn orfod mynd at wasanaethau gofal statudol, i ysgolion preswyl neu i'r system cyfiawnder troseddol, a bydd y gwasanaeth newydd yn rhoi cymorth dwys wedi'i dargedu iddyn nhw a'u teuluoedd. Bydd y gwasanaeth yn cael ei sefydlu yn 2019/20.

Seibiant preswyl byr

Mae teuluoedd a gofalwyr plant sydd ag anghenion corfforol cymhleth yn aml dan lwyth o bwysau corfforol ac emosiynol. Gall cynnig seibiant preswyl byr i blant helpu i atal sefyllfa teuluoedd rhag mynd i'r wal ac atal yr angen am leoliadau preswyl brys neu hirdymor. Mae **Arosfa yn cynnig gofal seibiant i blant ag anableddau dwys** mewn amgylchedd diogel, sy'n eu galluogi i ddatblygu sgiliau annibynnol, cymysgu

gyda chyfoedion a gwneud y mwyaf o'u cyfleoedd at y dyfodol. Mae gwaith ar fynd i ddatblygu'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan Arosfa ac rydym yn gobeithio ehangu'r gwasanaeth yn fuan trwy ychwanegu dwy ystafell wely ychwanegol.

Rhaglenni rhianta

Mae **Fframwaith Rhianta Sir y Fflint (2018)** yn amlinellu strwythur i ddatblygu ein rhaglenni rhianta ymhellach ac mae'n rhan o'n strategaeth ehangach ar gyfer **ymyrraeth gynnar ac atal**. Nod y rhaglenni yw gweithio gyda rhieni a gofalwyr i gefnogi datblygiad technegau rhianta, cryfhau perthnasoedd a gwytnwch teuluol, ac atal unedau teuluol rhag chwalu. Mae'r ymyrraethau hyn yn cynnwys cyfraniad gan y Tîm o Amgylch y Teulu, Cyfarfodydd Grwpiau Teuluol a'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.

Datblygu gwasanaeth 'ar ymylon gofal'

O fewn gwasanaethau statudol, mae gwaith y **Tîm Cymorth wedi'i Dargedu** yn amhrisiadwy i gefnogi teuluoedd nad yw gwasanaethau cymorth cynnar yn gallu diwallu eu hanghenion. Mae'r tîm yn sefydlogi perthnasoedd teuluol ac yn atal gorfod cael gwasanaethau mwy dwys, ac eleni bydd **Gwasanaeth Ymylon Gofal** yn cael ei ddatblygu. Nod hyn fydd darparu ymyrraethau strwythuredig yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n datblygu sgiliau datrys problemau o fewn teuluoedd, ennyn gwytnwch ac yn newid ymddygiad yn gadarnhaol a chynaliadwy. Bydd atal y sefyllfa rhag gwaethygu ymhellach ac atgyfeirio at achosion gofal yn rhoi canlyniadau cadarnhaol a fydd yn galluogi plant i fyw'n ddiogel o fewn y cartref teuluol yn gynaliadwy.

Cryfhau gofal maeth

Rydym yn cydnabod gwerth ein gwasanaeth maeth i **leihau a rheoli'r galw am leoliadau preswyl**, ac mae'r dadansoddiad sy'n sail i Strategaeth Leoli ein Gwasanaethau Plant yn pwysleisio bod angen i ni fuddsoddi mewn modelau maethu newydd i wella sefydlogrwydd lleoliadau ac annog mwy o ofalwyr i barhau â'r gwaith.

Model Mockingbird

Mae heriau penodol i ddod o hyd i leoliadau maeth ar gyfer plant hŷn a grwpiau o frodyr a chwiorydd. Ym mis Medi 2018, sicrhodd ein gwasanaeth maethu gyllid i'n helpu i ymchwilio i a datblygu model o ofal maeth o'r enw'r **Model Mockingbird**. Mae'r model hwn yn creu cymuned o ofalwyr maeth lle mae'r aelodau'n cefnogi ei gilydd yn ogystal â'r plant maent yn gofalu amdanynt. **Ein Cyngor ni fydd y cyntaf yng Nghymru i gyflwyno'r model maethu arloesol hwn sy'n cael ei gydnabod yn rhyngwladol.**



Y Gwasanaeth Dychwelyd ac Atal

Rydym yn parhau i gefnogi nifer bach o blant sy'n derbyn gofal trwy waith ein **Gwasanaeth Dychwelyd ac Atal**, sy'n cael ei ariannu gan y **Gronfa Gofal Integredig**. Mae'r Gwasanaeth Dychwelyd ac Atal, partneriaeth rhwng y Cyngor, y Bwrdd Iechyd, Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc a Gweithredu dros Blant, ac wedi'i gefnogi gan ofalwyr maeth profiadol, yn darparu **gwasanaeth ymyrraeth gynnar a therapi ataliol** ar gyfer pobl ifanc a'u gofalwyr. Ei nod yw sefydlogi lleoliadau sydd mewn perygl o chwalu, dychwelyd pobl ifanc i ofal Sir y Fflint a lleihau'r galw am leoliadau preswyl y tu allan i'r sir. Mae datrysiadau'n canolbwyntio ar wella lles emosiynol a gwynwch pobl ifanc a datblygu eu sgiliau cymdeithasol a chyfathrebu.

Gweithio i ddarparu lleoliadau preswyl i blant yn agos at adref

Er ein hymrwymiad i wasanaethau ataliol, bydd cyfran fechan o blant dan ofal sydd angen lleoliadau preswyl bob tro, ac rydym ni eisiau sicrhau bod y plant a'r bobl ifanc hyn yn aros yn **agos at adref**.

Yr her

Y llynedd, fe ddwedom bod **darparu lleoliadau lleol sefydlog, o safon uchel** yn flaenoriaeth i ni, ond mae hwn yn ymrwymiad **ac iddo heriau sylweddol**. Mae mwy o alw a diffyg cyflenwad lleol yn golygu bod marchnad o ddarparwyr lle gall darparwyr gofal preswyl ddewis a dethol y bobl ifanc maent yn eu derbyn. Mae hyn yn aml yn golygu bod pobl ifanc sydd ag anghenion mwy cymhleth a heriau ymddygiadol yn fwy anodd eu lleoli. Pan fydd gwllâu prin ar gael, efallai y bydd nifer o wasanaethau lleol yn ceisio cael gafael arnynt, sy'n arwain at gystadlu brwd. Mae galw mawr o'r fath yn rhoi pwysau ariannol ar y Cyngor, gan fod darparwyr yn gallu gosod pris am y ddarpariaeth. Cyllideb Cyngor Sir y Fflint ar gyfer plant dan ofal yn 2017/18 oedd tua £7.8 miliwn, a gwariwyd 65% o hwn ar leoliadau preswyl y tu allan i Sir y Fflint.

Ein hymateb

Rydym yn ymateb i'r her hon mewn sawl ffordd. Mae dod o hyd i leoliadau, a oedd gynt yn gyfrifoldeb ar weithwyr cymdeithasol, bellach yn digwydd yn ein tîm broceriaeth, sy'n defnyddio arferion cyson a'u profiad. Mae ein hymchwil yn dweud wrthym bod lefelau cyfredol lleoliadau'n dibynnu'n helaeth ar y sector annibynnol, ac rydym ni'n mapio'r farchnad leol ac yn creu dull cyd-gynhyrchiol o weithio gyda budd-ddeiliaid. Byddwn yn ymchwilio i ymarferoldeb sefydlu darpariaeth cartref preswyl newydd i blant wedi'i chynnal gan y Cyngor, yn ogystal â ble mae gan ddarparwyr presennol gynlluniau i ehangu, a disgwylwch i hyn roi mwy o reolaeth i ni

dros fath ac ansawdd y ddarpariaeth. Byddwn yn hefyd yn ceisio gweithio gyda'r ddarpariaeth tai lleol sy'n bod eisoes i ddatblygu 'canolfan asesu a chymorth' i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n dod i dderbyn gofal ac nad ydynt am symud o'u hardal leol oherwydd eu rhwydweithiau cryd o ffrindiau a chysylltiadau addysg, hamdden a chyfleusterau a gwasanaethau lleol eraill. Rydym bellach wedi ymuno â Chonsortium Comisiynu Plant Cymru a byddwn yn gweithio ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol i ddatblygu dewis o leoliadau a gwella'r ddarpariaeth i blant dan ofal.



Hyblygrwydd cyllid: hwyluso dull strategol ar gyfer gwasanaethau cymorth cynnar, atal a chefnogaeth

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd nifer o grantiau rhaglenni Awdurdodau Lleol, o 2019/20 ymlaen, yn cyfuno'n ddau grant cyffredinol ar gyfer plant a chymunedau, a chymorth tai. Y bwriad yw i gynghorau gael mwy o ryddid a hyblygrwydd i gynllunio gwasanaethau integredig, cynaliadwy a chost-effeithiol sy'n gwella dull ataliol i gefnogi pobl ddiameddifyn. Yn Sir y Fflint, rydym ni'n gweld y newid hwn fel cyfle i fod yn fwy strategol yn y ffordd rydym ni'n cynllunio, yn

comisiynu ac yn adolygu effaith ein gwasanaethau, ac mae gwaith eisoes ar fynd i symleiddio prosesau i reoli'r gwell hyblygrwydd ar gyfer grantiau cymorth cynnar, atal a chefnogaeth. Bydd Grŵp o Brif Swyddogion wedi'i sefydlu erbyn mis Ebrill 2019, ac o fis Ebrill 2020, bydd un dull cyllidebol i'r ddau grant a fydd yn cael ei ategu gan un cynllun cyflawni.

Mae'r buddion o ddod â ffynonellau cyllid allweddol ynghyd a mwy o hyblygrwydd o ran cyllid yn cynnwys lleihau faint o waith sy'n cael ei ddyblygu, cyfuno gwybodaeth ac adnoddau, gwell tryloywder o ran penderfyniadau am adnoddau, gwell dealltwriaeth o angen sy'n dod i'r amlwg, mwy o lwybrau cymorth integredig a chyfle i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb cyllid (lle bo hynny'n berthnasol). Bydd y drefn lywodraethu strategol newydd hon hefyd yn rhoi **cyfle i ni ddatblygu Strategaeth Cymorth Cynnar ac Atal**, a fydd yn dweud wrthym beth sydd ei angen gan ein gweithlu ac o fentrau ehangach y Cyngor a phartneriaid os ydym am gyflawni'n hamcanion.

Ein blaenoriaethau ar gyfer 2019/20 fydd:

- **Gweithredu model gofal maeth Mockingbird yn Sir y Fflint**
- **Lleihau'r angen i blant dderbyn gofal a gwella canlyniadau i blant**
- **Parhau i wella opsiynau am leoliadau lleol i blant**
- **Gweithio gydag Adrannau Addysg ac Ieuenctid i gyflawni diwygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol a chefnogi unigolion trwy'r cyfnod pontio**
- **Datblygu Rôl Fraenaru i arwain unigolion trwy'r Gwasanaethau Blynnyddoedd Cynnar**
- **Gweithredu'r argymhellion sydd yn Strategaeth Gofalwyr Gogledd Cymru**

SAG6: Gweithio gyda a chefnogi pobl i gyflawni gwell lles economaidd, i gael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n diwallu eu hanghenion

Datblygu Gofal Ychwanegol



Mae **cefnogi byw'n annibynnol** yn flaenoriaeth allweddol i ni, ac yn dilyn llwyddiant **Llys Eleanor** yn Shotton a **Llys Jasmine** yn yr Wyddgrug, agorodd cynllun gofal ychwanegol **Llys Raddington** i denantiaid yn y Fflint yn Hydref 2018. Mae'r cynllun, sy'n bartneriaeth rhwng y Cyngor, Llywodraeth Cymru a Grŵp Tai Pennaf, yn cynnig 73 o fflatiau un neu ddwy ystafell wely pwrpasol ar gyfer pobl leol 60 oed a hŷn. Mae'r Cyngor yn darparu'r gofal a'r cymorth i denantiaid, ac mae Pennaf yn rheoli'r adeilad a'r arlwy. Fel sy'n wir yn ein cynlluniau gofal ychwanegol eraill, mae Llys Raddington yn gartref diogel, cymdeithasol a chefnogol sy'n hyrwyddo annibyniaeth, ac sy'n cynnwys fflatiau sydd wedi'u haddasu'n benodol ar gyfer anghenion pobl sy'n byw â dementia.

Mae gwaith adeiladu yn parhau ar y cynllun gofal ychwanegol newydd yn Nhreffynnon, sy'n cael ei ddatblygu mewn partneriaeth â chymdeithas dai Wales & West. Wedi'i leoli ger canol y dref ac yn agos at yr ysbyty lleol a'r ganolfan iechyd, bydd y cynllun hwn yn cynnig 55 o fflatiau i bobl 50 oed a hŷn. Ei enw fydd **Plas yr Ywen** gan fod ywen fawr a choedwig hynafol ar y safle, ac mae disgwyl iddo agor i denantiaid yng ngwanwyn 2020/

Ehangu cartref gofal preswyl Marleyfield House sy'n eiddo i'r Cyngor

Er mwyn cael **gwell capasiti strwythurol i ateb y galw ar wasanaethau gofal cymdeithasol**, rydym wedi ymrwymo i fuddsoddi mewn cyfleuster preswyl newydd â 32 o wlaŷu ger cartref gofal preswyl Marleyfield House ym Mwcle. Mae disgwyl i waith adeiladu gychwyn ym mis Tachwedd eleni a rhagwelir y bydd y cyfleuster newydd yn gwbl weithredol yn gynnar yn 2021. Bydd yn bartneriaeth rhwng y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd a bydd yn cynnig gwlaŷu gofal preswyl ychwanegol i bobl hŷn, rhai opsiynau arhosiad byrdymor a gofal canolradd/rhyddhau i wlaŷu asesu. Mae dyluniad arloesol yn cael ei ddatblygu mewn cydweithrediad â'n partner adeiladu ac wrth ymgynghori â phreswylwyr presennol ac aelodau'r gymuned leol, a gobeithiwn y bydd y manylion terfynol ar gael yn y misoedd nesaf.



Buddsoddi mewn canolfan ddydd newydd ar gyfer pobl sydd ag anableddau dysgu

Er gwaethaf heriau ariannol sylweddol, mae'r Cyngor wedi buddsoddi £4 miliwn o'i raglen gyfalaf mewn datblygiad cyffrous a fydd yn darparu canolfan ddydd o'r radd flaenaf i bobl sydd ag anableddau dysgu. Bydd yr adeilad yn dod yn lle'r ganolfan ddydd ger llaw sy'n mynd yn hŷn, yn Glanrafon, Queensferry, a bydd yn cael ei alw'n **Hwb Cyfle**. Mae'r enw'n dal ethos y ganolfan i ddarparu cyfleoedd cyfartal i bobl sydd ag anableddau dysgu i weithio, dysgu a chreu perthnasoedd cymdeithasol mewn amgylchedd cynhwysol. Mae disgwyl i'r adeilad newydd agor fis Gorffennaf 2019 ac mae wedi'i ddylunio gan ystyried sylwadau staff a phobl sy'n cael eu cefnogi gan y gwasanaeth a'u teuluoedd. Mae hygyrchedd wedi bod yn ffocws allweddol ar gyfer y dyluniad ac mae pobl sydd ag anghenion ychwanegol wedi bod â rhan fawr yn hyn. Mae cyfleusterau gofal personol, sy'n hygyrch i holl aelodau'r gymuned, wedi'u cynnwys i gyrraedd y 'Safon Aur' sy'n cael ei diffinio gan yr ymgyrch Lleoedd Newid, sy'n golygu y byddant yn addas i bobl ag anableddau nad yw toiledau hygyrch arferol yn addas ar eu cyfer. Y canlyniad fydd adeilad modern ac effeithlon iawn i'r gwasanaethau anableddau dysgu, cydweithwyr ym maes iechyd a'r gymuned ehangach eu defnyddio.



Datblygu llety addas i oedolion sydd ag anableddau

Rydym wedi bod yn bartneriaid llawn yn y gwaith o ddatblygu **Strategaeth Tai'r Cyngor** ac rydym yn cydnabod yr angen i ddatblygu llety addas i oedolion sy'n byw ag anableddau yn Sir y Fflint. Mae diffyg llety priodol dros dro wedi bod yn bryder penodol i bobl sy'n dioddef o salwch neu anaf aciwt, sy'n golygu eu bod yn yr ysbyty am gyfnod hir. Yn aml, mewn sefyllfaoedd o'r fath, nid yw'r unigolyn dan sylw wedi gallu dychwelyd i'r cartref tan mae addasiadau sylweddol wedi'u gwneud, sy'n eu cyfyngu un ai i arhosiad hirach yn yr ysbyty neu leoliad preswyl byrdymor. Nid yw'r opsiynau hyn yn briodol. Yn rhan o'n prif raglen gyfalaf yn 2018/19, rydym wedi dechrau gweithio ar ddatblygu tŷ pontio newydd yn **Glan y Morfa**, Cei Connah. Wedi'i ariannu trwy'r Gronfa Gofal Integredig, bydd yr hen lety warden hwn yn cael ei drawsnewid yn eiddo tair llofft, cwbl hygyrch i'w ddefnyddio am gyfnodau byr.

Ein blaenoriaethau ar gyfer 2019/20 fydd:

- **Datblygu'r Strategaeth Gofal Ychwanegol gan gwblhau Plas yr Ywen yn Nhreffynnon ac edrych ar opsiynau am 5ed cynllun gofal ychwanegol yn ne'r Sir**
- **Ehangu darpariaeth cartrefi gofal y Cyngor trwy ehangu Marleyfield House ym Mwcle**
- **Gweithio i drosglwyddo'r gwasanaeth cyfleoedd dydd a gwaith wedi'i gomisiynu gan Hft i safle newydd Hwb Cyfle**
- **Mynd i'r afael ag anghenion tai ar gyfer pobl ddiameddiffyn, gan ganolbwyntio'n benodol ar bobl sydd ag anableddau dysgu neu gorfforol**

Adran 5: Sut ydym ni'n cyflawni'r hyn rydym ni'n ei wneud

Ein gweithlu a sut rydym yn cefnogi eu rolau proffesiynol

Gweithio'n rhanbarthol

Mae ein Tîm Datblygu'r Gweithlu'n parhau i ymdrechu i sicrhau bod gan y gweithlu lleol y sgiliau, y wybodaeth a'r gallu i ddiwallu anghenion deddfwriaeth gofal cymdeithasol yng Nghymru. Rydym yn parhau i ymrwymo i Strategaeth Gweithlu Gogledd Cymru, sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ac yn parhau i ganolbwyntio ar weithredu egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. O'r gwaith hwn, mae perthnasoedd cryf wedi datblygu rhwng rheolwyr datblygu'r gweithlu ar draws Gogledd Cymru, gan annog ymagwedd integredig wrth fynd i'r afael â heriau a chyfleoedd.

Rhannu ymarfer sy'n seiliedig ar gyfleoedd

Gan fod ein gwaith yn canolbwyntio ar gefnogi pobl sy'n derbyn gofal a chymorth i gyflawni eu canlyniadau personol, rydym yn gwybod ei bod yn rhaid adlewyrchu'r dull hwn yn ein harferion sefydliadol ein hunain. Ar draws y gwasanaethau oedolion a phlant, rydym yn datblygu arferion gwaith sy'n cefnogi staff i nodi a chyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt yn y gwaith. Gan weithio gyda chynghorau eraill, rydym yn rhannu profiadau a syniadau am y ffordd orau o weithredu'r dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

Rydym hefyd yn darparu **hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau** i weithwyr cymdeithasol a rheolwyr darparwyr gofal preswyl sy'n rhan o'n rhaglen Progress for Providers. Bydd hyn yn digwydd fis Mai 2019 a Chwefror 2020 ac mae'n cael ei ategu trwy ddatblygu canllaw arferion da. Mae cyfarfodydd 'Materion ansawdd' a phaneli ansawdd yn cael eu cynnal yn rheolaidd i roi cyfle i weithwyr proffesiynol ddatblygu, rhannu ac adlewyrchu ar eu hymarfer.

Recriwtio yn seiliedig ar werthoedd: ymagwedd newydd

Mae anawsterau recriwtio staff gofal a chymorth ar draws y sector gofal ac rydym wedi gwneud newidiadau i ymateb i hyn. Mae ein **ymagwedd newydd at recriwtio yn seiliedig ar werthoedd**, gan ddefnyddio ystod o dechnegau i'n helpu i recriwtio staff sydd â'r agweddau a'r gwerthoedd cywir ar gyfer y gwaith – sy'n benodol bwysig mewn gofal cymdeithasol. Rydym hefyd yn cefnogi ymgyrch recriwtio genedlaethol Gofal Cymdeithasol Cymru, **Gofalwn Cymru**, trwy weithio



yn agos gyda'r Ganolfan Byd Gwaith i hybu cyfleoedd yn y sector gofal lleol sy'n tyfu.

Meithrin ein harweinwyr: rhaglenni i reolwyr

Rydym yn parhau i ddatblygu a chefnogi ein rheolwyr, ynghyd â staff sydd â photensial i arwain. Mae'r rhaglenni hyn yn cynnwys Camu i Fyny at Arweinyddiaeth, Datblygu Ymarferwyr Gofal Cymdeithasol, Datblygu Rheolwyr Canol a Datblygu Rheolwyr Tîm. Mae cynlluniau olyniaeth yn allweddol i'n taith at wella ac mae ein huwch reolwyr, ynghyd â chydweithwyr o Adnoddau Dynol, wedi nodi rolau hanfodol i fusnes ac wedi cynnal dadansoddiad o staff yn y swyddi hynny i greu asesiad risg. Mae gwaith yn parhau i gyd-fynd â'r wybodaeth sydd yn ein proses arfarnu i ddatblygu ein staff presennol i gyflawni'r cynlluniau olyniaeth hynny.

Cysondeb i weithwyr cymdeithasol

I gefnogi ein gweithwyr cymdeithasol, rydym yn defnyddio'r **tair blynedd gyntaf o ymarfer. Fframwaith i weithwyr cymdeithasol ar gyfer ymarfer cymwysedig a pharhau ag addysg a dysgu proffesiynol**. Cyhoeddwyd hwn yn 2017 gan Ofal Cymdeithasol Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru. I hyrwyddo cysondeb ar draws Gogledd Cymru, mae timau rhanbarthol datblygu'r gweithlu wedi cytuno ar ganlyniadau dysgu ar gyfer yr holl hyfforddiant sydd yn y fframwaith. Bydd hyn yn help pan mae gweithwyr cymdeithasol yn trosglwyddo i weithio ar draws cynghorau yng

Ngogledd Cymru, gan gefnogi cysondeb o ran sgiliau, gwybodaeth a gallu. Bydd y tîm datblygu'r gweithlu hefyd yn darparu rhaglen fentora ar gyfer gweithwyr cymdeithasol uwch i sicrhau bod cefnogaeth effeithiol i weithwyr cymdeithasol newydd yn ystod y tair blynedd gyntaf. Mae'r Cyngor wedi addo cynllun cymorth ar gyfer yr holl weithwyr cymdeithasol newydd i sicrhau eu bod yn derbyn digon o gefnogaeth a hyfforddiant, yn enwedig yn y flwyddyn gyntaf ar ôl cymhwyso.

Cefnogi staff rheng flaen

I staff sy'n darparu gofal a chymorth uniongyrchol, ein blaenoriaeth oedd lansio **Fframwaith Cyflwyno Cymru Gyfan**. Er bod oedi wedi bod â datblygiadau ar gynnwys modiwlau craidd y Fframwaith, mewn partneriaeth â Gofal Cymdeithasol Cymru, rydym wedi cyflawni gweithdai is-ranbarthol **Gwneud Pethau'n lawn** i gefnogi darparwyr gofal gyda'r heriau posib'. Rydym hefyd wedi cynnal gweithdai briffio ar gyfer darparwyr mewnol ac yn y sector annibynnol. Mae'r newidiadau yn y cyflwyniad wedi effeithio ar y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau ac mae ein haseswyr wedi bod yn gweithio'n rhanbarthol ac yn lleol i gefnogi darparwyr gyda hyn. Rydym hefyd wedi gweithio'n is-ranbarthol mewn partneriaeth â Choleg Llandrillo i gynnid cymhwyster gofal cymdeithasol lefel 2 i staff newydd fel bod y cymhwyster angenrheidiol ganddynt i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Bydd y rhain yn parhau yn 2019-20, yn ogystal â chefnogi staff i gyrraedd lefelau 2, 3 a 5 mewn gofal dementia ac awtistiaeth.

Cydymffurfio â Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)

Mae ein rôl yn parhau'n hanfodol i ddarparu cymorth i gofrestru gweithwyr a rheolwyr gofal cartref Sir y Fflint fel sy'n ofynnol dan y Ddeddf uchod. Rydym wedi darparu gweithdai cofrestru mewn partneriaeth â Gofal Cymdeithasol Cymru, ac rydym yn bwriadu parhau â'r cymorth hwn yn lleol ac yn rhanbarthol. Rydym wedi cynnal gweithdai rhanbarthol a lleol i ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer rôl Unigolyn Cyfrifol a'r disgwyliadau sy'n rhan ohoni. Ffocws allweddol o'r sesiynau hyn fydd cefnogi anghenion hyfforddiant a datblygu Unigolion Cyfrifol i sicrhau eu bod wedi'u paratoi a'u bod yn gymwys i weithio'n effeithiol yn y rôl.

Hyrwyddo lles ein gweithlu

Mae lles ein gweithlu'n hanfodol os ydym am wella ein gwasanaethau. Ar y cyd â'r undebau llafur lleol cydnabyddedig, rydym yn falch o fod wedi dod i gytundeb ar **fodel cyflog wedi'i ddiweddarau**, sy'n sicrhau bod **holl weithwyr y cyngor sy'n cael eu cyfogi'n uniongyrchol yn cael yr Isafswm Cyflog Byw Sylfaenol** o fis Ebrill 2019 ymlaen. Mae'r Rhaglen Cymorth i Weithwyr **Gofal yn Gyntaf** a gafodd ei chyflwyno'n ddiweddar yn rhoi cefnogaeth emosiynol ac ymarferol i staff a'u teuluoedd ar gyfer materion gartref neu yn y gwaith, gan gyfeirio at asiantaethau allanol pan mae angen cyngor a chymorth

arbenigol ychwanegol. Mae canllawiau i staff ar gefnogi staff gofal cymdeithasol trwy ddigwyddiadau trawmatig wedi'u cyhoeddi'n ddiweddar, ac mae **Polisi Gweithio a Gofalu'r Cyngor** yn helpu staff i gael cydbwysedd rhwng cyfrifoldebau bywyd gartref a'r gwaith, gan ganiatáu amser o'r gwaith am gyflog a heb gyflog mewn sefyllfaoedd o'r fath. Mae **Strategaeth Lles Gweithwyr** yn cael ei datblygu, gyda'r nos o ddarparu amgylchedd gwaith diogel ac iach i staff, gwella lles corfforol ac emosiynol, annod a chefnogi gweithwyr i ddatblygu a chynnal ffyrdd iach o fyw, a gwella bodlonrwydd gweithwyr, llwyddiant recriwtio a chadw gafael ar staff.

Ein blaenoriaethau ar gyfer 2019/20 fydd:

- **Cefnogi'r gweithlu gofal cartref i baratoi i gofrestru a chefnogi rolau Unigolion Cyfrifol.**
- **Sicrhau bod y rhaglen hyfforddiant genedlaethol ar gyfer Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn cael ei darparu.**

Ein hadnoddau ariannol a sut rydym yn cynllunio ar gyfer y dyfodol

Pwysigrwydd craffu

Eleni, fe ddechreuom ni gyflwyno ein meddalwedd hunanwasanaeth monitro cyllid (cynllunio ar y cyd), sy'n caniatáu i reolwyr weld a rheoli eu cyllidebau ar y pryd. Yn cyd-fynd â hyn mae'r gwaith monitro ariannol manwl sy'n cael ei wneud gan reolwyr gwasanaeth unigol ynghyd â'u swyddogion cyllid dynodedig, uwch reolwyr yn adolygu eu meysydd gwasanaeth gyda rheolwyr cyllid dynodedig a chyfrifydd y gwasanaethau cymdeithasol yn llunio ac yn cyflwyno adroddiadau monitro cyllid manwl ar gyfer Rheolwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Bwrdd Rhaglen y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Ar ben hyn, cynhaliodd y Gwasanaethau Cyhoeddus ddau weithdy cyllideb i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Iechyd a Gofal Cymdeithasol fis Hydref. Roedd y rhain yn rhoi gwybodaeth fanwl i aelodau etholedig (neu gynghorwyr) am gyllideb portffolio'r gwasanaethau cymdeithasol, sut mae'n cael ei chreu, sut mae'n cyflawni ei dyletswyddau a'r galw sydd arni. Cyflwynodd y gweithdy'r pwysau o ran costau a oedd yn dal ar yr awdurdod i'r aelodau etholedig, a sut mae'r gwasanaethau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd i wirio eu cadernid yn ystod y cyfnod parhaus hwn o gynni ariannol.

Rhoi gwerth am arian

Mae Sir y Fflint yn parhau i fod yn aelod gweithredol o **Grŵp Cyllideb Gyfun Gogledd Cymru** ac yn parhau i weithio gyda gweithwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddarparu'r costau refeniw i ehangu gofal preswyl yn Marleyfield House ym Mwcle trwy gytundeb cyllideb gyfun.

Rydym yn datblygu proses o osod gwybodaeth monitro'r gyllideb ochr yn ochr â data perfformiad i allu rhagweld y sefyllfa ariannol yn ystod y flwyddyn yn well, a chyfrannu at ein gwybodaeth i ragdybio. Rydym yn parhau i edrych ar gcontractau cyfredol a chytundebau lefel gwasanaeth i sicrhau ein bod yn cael gwerth am arian gan gyflawni ar ganlyniadau. Enghraifft o hyn yw'r contractau gwasanaethau anabledau cymunedol sydd newydd eu tendro. Mae manylion y gwasanaeth a'r canlyniadau ar eu cyfer wedi'u llunio gyda defnyddwyr y gwasanaeth a'u teuluoedd. Roedd darparwyr yn cael eu hannog i gydweithio i ddarparu pwynt mynediad canolog i bobl a oedd ag anabledau, gan eu helpu i fod yn fwy annibynnol. Mae'r contract yn rhoi gwell gwerth am arian gan ganolbwyntio ar anghenion defnyddwyr y gwasanaethau a'r rhai sydd ynghlwm â'u gofal wrth ddarparu gwasanaeth.

Yn y gwasanaethau plant, mae'r farchnad ofal leol yn parhau i gael ei datblygu trwy feithrin perthynas waith agos gyda darparwyr yn y sector annibynnol yng Ngogledd Cymru i ddarparu gofal a chymorth i blant lleol. Byddwn yn parhau i sicrhau bod gennym ffyrdd cost-effeithiol o ddiwallu anghenion dynodedig gan ddefnyddio contractau wedi'u comisiynu. Byddwn hefyd yn parhau i adeiladu ar ein perthynas waith agos gyda'r darparwyr gofal annibynnol, gan weithio gyda nhw i ddeall y pwysau sydd arnynt o ran costau a chydabod eu gofynion trwy ein strwythur ffioedd gofal.

Er bod cyllidebau'n dal yn her ar draws y gwasanaethau cyhoeddus gyda gostyngiadau flwyddyn ar ôl blwyddyn i gyllid ar gyfer llywodraeth leol, rydym ni yn Sir y Fflint wedi parhau i weithio'n galed i warchod gwasanaethau cymdeithasol a darparu gwasanaethau statudol o ansawdd. Yn ychwanegol at y gofynion statudol hyn, rydym wedi gweithio i arloesi a siapio dyfodol ein darpariaeth, yn ogystal â buddsoddi yn ein darpariaeth ofal fewnol trwy brosiectau cyfalaf fel Hwb Cyfle ac ehangu Cartref Gofal Marleyfield House.

Ein blaenoriaethau ar gyfer 2019/20 fydd:

- **Parhau i gwrdd â chostau chwyddiant blynyddol gofal.**
- **Parhau i edrych ar ddulliau eraill o ddarparu gofal ar gyfer lleoliadau cost uchel/nifer isel traddodiadol, gan ganolbwyntio ar wasanaethau lleol sy'n darparu canlyniadau o safon a gwerth am arian.**

Gweithio mewn partneriaeth, arweinyddiaeth wleidyddol a chorfforaethol, llywodraethu ac atebolrwydd

Pwy ydym ni

Mae aelodau etholedig yn cynrychioli trigolion Sir y Fflint ac yn chwarae rhan bwysig o ran llywodraethu'r Cyngor. Maent yn cytuno ar flaenoriaethau'r Cyngor ac yn cymeradwyo polisiau er mwyn gwella'n barhaus. Mae gan Gyngor Sir y Fflint 70 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli buddiannau eu ward ac yn rhan o gyfarfodydd llawn y Cyngor i oruchwylio perfformiad holl agweddau'r Cyngor. Mae un aelod yn cael ei ethol gan gymheiriaid i gynrychioli pob maes portffolio. Mae'r rhain yn cael eu galw'n Aelodau Cabinet a gyda'r Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd, y Prif Weithredwr a Phrif Swyddogion, maen nhw'n ffurfio Cabinet y Cyngor.

Sut rydym ni'n gwneud penderfyniadau

Mae pob Aelod Cabinet yn cael ei gefnogi gan Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu ac ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol, y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Iechyd a Gofal Cymdeithasol yw hwnnw. Oherwydd y berthynas waith agos gyda'r Portffolio Addysg ac Ieuenctid, mae'r Cyngor hefyd yn cynnal cyfarfodydd Cydbwyllgor Craffu Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac Addysg ac Ieuenctid, i drafod gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n berthnasol i'r gwasanaethau cymdeithasol ac addysg. Mae Arweinydd a Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet y Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd ynghlwm â rhaglen waith y Gwasanaethau Cymdeithasol trwy Fwrdd Rhaglen y Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae'r Aelod Cabinet hefyd yn mynd i gyfarfodydd Tîm Rheoli'r Gwasanaethau Cymdeithasol bob mis.

Mae swyddogion y Cyngor yn cael eu harwain gan y Prif Weithredwr sy'n cael cefnogaeth Prif Swyddogion sy'n gyfrifol am bob un o'r meysydd portffolio. Mae gan Brif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol rôl statudol "Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol". Nodir trefniadau strwythurol y Cyngor ar gyfer aelodau a swyddogion yn glir. Mae'r cyfansoddiad yn manylu ar sut mae'r Cyngor yn gweithredu, sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud a'r gweithdrefnau sy'n cael eu dilyni sicrhau bod y penderfyniadau hyn yn effeithlon, yn dryloyw ac yn atebol i bobl leol. Mae gan y Cyngor hefyd broses llywodraethu mewnol trwy system o archwilio mewnol. Mae canlyniadau archwiliadau'n cael eu monitro gan y Pwyllgor Archwilio a gellir galw swyddogion i roi tystiolaeth i'r pwyllgor pe bai pryderon yn codi ynghylch eu meysydd gwasanaeth.

Gwaith partneriaeth

Mae gan Sir y Fflint hanes o weithio mewn partneriaeth ac yn Adran 4 rydym yn disgrifio rhai o'r gwasanaethau a'r mentrau rydyn wedi'u datblygu gyda chyrrff ac asiantaethau eraill. Mae'r rhain yn cynnwys y Ganolfan Cymorth Cynnar a'r gwaith rydym yn ei wneud i annog gwytnwch yn ein cymunedau. Wrth wraidd ein harferion o gydweithio ma **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint**. Wedi'i sefydlu ym mis Ebrill 2016, mae'r corff

statudol hwn yn cynnwys uwch arweinwyr o sefydliadau'r sector cyhoeddus ac annibynnol. Ei nod yw sicrhau bod partneriaid statudol a thrydydd sector yn cydweithio i reoli blaenoriaethau cyffredin trwy gydweithio, ac mae'r blaenoriaethau hyn wedi'u nodi yng [Nghynllun Lles Sir y Fflint 2017-2023](#).

Un o'r pum blaenoriaeth hyn yw 'Byw'n Iach ac yn Annibynnol' ac mae nifer o fentrau partneriaeth yn rhan o hyn, gan gynnwys y Ganolfan Cymorth Cynnar.

Sefydlwyd **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru** yn 2016 hefyd ac mae'r aelodau'n cynnwys cynrychiolaeth i gyrrff statudol, partneriaid trydydd sector, gofawyr a defnyddwyr gwasanaethau. Mae'r Bwrdd yn gweithio i integreiddio a gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yng Ngogledd Cymru ac mae wedi bod yn llwyddiannus â'i gynnig am gronfa newydd gan Lywodraeth Cymru i drawsnewid gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Yn 2019/20, bydd Sir y Fflint yn cynnal y Gwasanaeth Trawsnewid Anableddau Dysgu Rhanbarthol, a bydd yn arwain rhaglenni trawsnewid rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl, gwasanaethau plant a chymorth cymunedol. Rydym hefyd yn aelod gweithredol o [Gydweithredfa Gwella Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru](#), sy'n cynnwys y chwe chyngor yng Ngogledd Cymru, y Bwrdd Iechyd a phartneriaid eraill. Mae hon yn gweithio i wneud y mwyaf o adnoddau, lleihau faint o waith sy'n cael ei ailadrodd a gwella cysondeb ar draws gwasanaethau Gogledd Cymru. Mae manylion y prosiectau a'r digwyddiadau rhanbarthol sy'n cael eu cynnal yn rhan o'r rhaglen gydweithredol hon i'w cael ar www.cydweithredfagogleddcymru.cymru

Mae'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gydweithio'n agos gyda chyfarfodydd strategol rhwng y prif weithredwyr a'r arweinwyr bod dwy flynedd. Mae nifer o gyfarfodydd ar y cyd drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys cyfarfod craffu pob chwe mis lle mae gwahoddiad i rai o faes iechyd i ateb cwestiynau gan aelodau etholedig. Mae ein perthynas gyda'r sector gwirfoddol yn parhau i gael ei chryfhau gan ein bod yn rhan o Gytundeb y Sector Gwirfoddol. Mae'r bartneriaeth deirffordd hon rhwng y Cyngor, y Bwrdd Iechyd a'r sector annibynnol yn creu dealltwriaeth ar y cyd o rolau a chyfrifoldebau, ac yn galluogi i ni fanteisio'n llawn ar gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth. Mae'r aelodau'n cynnwys y Prif Swyddog a Chadeirydd Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint, aelodau eraill o'r sector gwirfoddol, y Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor ac uwch reolwr o'r Bwrdd Iechyd.

Adran 6: Cael gafael ar wybodaeth bellach a dogfennau pwysig

Deddfwriaeth a Gwybodaeth Gofal Cymdeithasol

Dolenni:

[Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol](#)

[Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol \(Cymru\) 2016](#)

[Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#)

[Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#)

Dogfennau Strategol Allweddol Cyngor Sir y Fflint

Dolenni:

[Cynllun y Cyngor 2018/19](#)

[Ein Sir y Fflint, Ein Dyfydol 2019 – 2020](#)

[Strategaeth Rhianta Corfforaethol](#)

[Sir y Fflint Digidol](#)

[Strategaeth Ranbarthol Anableddau Dysgu](#)

[Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru](#)

Rhestr termau

Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod - term sy'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio ystod eang o brofiadau straenus neu drawmatig y gall plant eu cael. Maent yn amrywio o brofiadau sy'n niweidio'r plentyn yn uniongyrchol hyd at y rhai sy'n effeithio'r amgylchedd mae'r plentyn yn cael ei fagu ynddo.

Eiriolaeth - y weithred o siarad ar ran neu o blaid person arall.

Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid - darparu fframwaith cyfreithiol sy'n diogelu pobl sy'n byw mewn cartrefi gofal neu ysbytai sy'n agored i niwed oherwydd anhwylder meddyliol ac nad oes ganddynt y galluedd meddyliol i wneud penderfyniadau am eu llety a'u hanghenion gofal eu hunain.

Taliadau Uniongyrchol - rhoi arian yn uniongyrchol i ddefnyddwyr i dalu am eu gofal eu hunain, yn hytrach na'r dull arferol o Awdurdod Lleol yn darparu gofal ar eu cyfer.

Cronfa Gofal Integredig - cronfa gan Lywodraeth Cymru sy'n "ceisio ysgogi a galluogi gweithio integredig rhwng gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, tai, a'r trydydd sector a'r sector annibynnol.

Plant dan Ofal - mae plentyn dan ofal awdurdod lleol os oes llys wedi rhoi gorchymyn gofal i roi plentyn mewn gofal, neu fod adran gwasanaethau plant y Cyngor wedi gofalu am y plentyn am fwy na 24 awr.

Canolbwyntio ar ganlyniadau - diffiniad canlyniadau yw effaith neu ganlyniadau terfynol gwasanaethau ar fywyd person. Mae gwasanaethau a chymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, felly, yn ceisio cyrraedd uchelgeisiau, nodau a blaenoriaethau sydd gan ddefnyddwyr gwasanaeth (a gofalwyr) – yn wahanol i wasanaethau lle mae eu cynnwys a/neu'r ffordd o'u darparu'n safonol neu'n cael eu pennu gan y rhai sy'n eu darparu yn unig.

Rhestr termau - parhad

Gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn - dull sy'n symud oddi wrth weithwyr proffesiynol yn penderfynu beth sydd orau i glaf neu ddefnyddiwr gwasanaeth ac yn ystyried barn yr unigolyn, fel arbenigwr ar eu profiad eu hunain. Mae'r unigolyn, a'r teulu lle bo hynny'n briodol, yn dod yn bartner cyfartal wrth gynllunio eu gofal a'u cymorth, gan sicrhau ei fod yn diwallu eu hanghenion, eu noda a'u canlyniadau.

Unigolyn cyfrifol - rhywun sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth mewn sefydliad neu awdurdod lleol. Gall hwn fod yn berchennog neu rywun sydd â rôl uwch.

Diogelu - term sy'n cael ei ddefnyddio i ddynodi mesurau i warchod iechyd, lles a hawliau dynol unigolion, sy'n caniatáu i bobl fyw heb gael eu cam-drin, eu niweidio na'u hesgeuluso.

Menter gymdeithasol - sefydliad sy'n defnyddio strategaethau masnachol i wneud y gwelliannau mwyaf posib' o ran lles dynol ac amgylcheddol – gall hyn gynnwys cael yr effaith gymdeithasol fwyaf ynghyd ag elw ar gyfer budd-ddeiliaid allanol.

Trydydd sector - y rhan o economi neu gymdeithas sy'n cynnwys sefydliadau neu gymdeithasau anllywodraethol neu rai dielw, gan gynnwys elusennau, grwpiau gwirfoddol a chymunedol, cydweithredfaoedd, ac ati.

Lles – y cyflwr o fod yn gyfforddus, yn iach neu'n hapus.

ATODIAD 1: DATA CYD-DESTUNNOL A MESURYDDION PERFFORMIAD CENEDLAETHOL

Gwasanaethau Oedolion

Rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019, bu i ni ddarparu gwasanaethau i 4615 o oedolion. Derbyniodd 3327 o bobl gyngor neu gymorth gan ein gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth i oedolion a chomisiynodd 521 o bobl eu gwasanaethau eu hunain trwy daliad uniongyrchol.

Gadawodd 56% o bobl y gwasanaeth ailalluogi ar ôl cyflawni eu canlyniadau personol heb fod angen dim cymorth parhaus gan y gwasanaethau cymdeithasol. Cwblhaodd 16% arall gyfnod ailalluogi gyda phegyn cymorth yr un fath neu lai.

Ar ddiwrnod olaf y flwyddyn hon, roeddem yn helpu 1246 o bobl dros 65 oed i fyw gartref, a 461 o bobl hŷn eraill mewn cartrefi gofal. Roedd cynllun gofal 86% o bobl a oedd â phegyn cymorth yn cael ei adolygu o fewn y terfynau amser.

Roedd 40 o bobl dros 75 oed wedi gorfod aros wrth drosglwyddo o'r ysbty eleni am resymau gofal cymdeithasol, sy'n gyfradd o 2.94 fesul 1,000 o bobl dros 75.

Nodwyd bod 1370 o ofalwyr i oedolion a chawsant eu hatgyfeirio at ein darparwyr gwasanaeth ar gyfer gofalwyr.

Derbyniwyd 642 o adroddiadau diogelu oedolion y llynedd, a chwblhawyd 95% o'r rheini a ddatblygodd yn ymholiadau dan Adran 126 o fewn 7 niwrnod.

Ar hyn o bryd, mae 261 o achosion yn disgwyl i gael asesiad Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn Sir y Fflint.

Gwasanaethau Plant

Mae galw ar Wasanaethau Plant Sir y Fflint yn cynyddu'n unol â gweddill Cymru. Mae atgyfeiriadau wedi cynyddu o 1789 yn 2016/17 i 2334 yn 2017/18; cynnydd o 30% dros 12 mis. Mae ffigyrau ar gyfer 9 mis cyntaf eleni'n dangos cynnydd pellach, gyda 2146 o atgyfeiriadau.

Ynghyd â'r cynnydd hwn yn y galw, rydym hefyd yn gweld cynnydd o ran cymhlethdod; lle roedd 37% o atgyfeiriadau'n mynd ymlaen i gael gwasanaethau gofal a chymorth neu amddiffyn plant yn 2016/17, cynyddodd hyn i 43% yn 2017/18.

Mae ein cyfradd o atgyfeiriadau lle nad oes unrhyw gamau'n cael eu cymryd wedi gostwng, yn dilyn cyflwyno'r Ganolfan Cymorth Cynnar ym mis Gorffennaf 2017, wrth i fwy o deuluoedd gael eu hatgyfeirio i gael cyngor a chymorth gan wasanaethau anstatudol.

Y ganran o asesiadau ar gyfer plant a gwblhawyd o fewn y terfynau amser statudol (42 diwrnod gwaith) oedd 95%; mae'r mesurydd hwn yn cynnwys y sgwrsiau "Beth sy'n Bwysig?" sy'n cael eu cynnal. Cyfartaledd Cymru Gyfan yn 17/18 oedd 88%, sy'n rhoi Sir y Fflint yn uwch na chwarterl uchaf Cymru.

Roedd 111 o blant ar Gofrestr Amddiffyn Plant Sir y Fflint ar 31 Mawrth 2019. Cynhaliwyd 89% o gynadleddau amddiffyn plant cychwynnol a 99% o gynadleddau adolygu o fewn y terfynau amser. Cafodd 5 plentyn o 3 teulu eu hailgofrestru o fewn 12 mis o'r tynnu oddi ar y gofrestr, ac arhosodd y plant arni am gyfartaledd o 256 diwrnod.

Roedd 241 o blant yn derbyn gofal yn Sir y Fflint ar 31 Mawrth 2019. Mae canran y plant sy'n derbyn gofal yn is na chyfartaledd Cymru. Mae gennym griw o ofalwyr maeth ymroddgar a brwdfrydig, gydag 80 o ofalwyr maeth (heb gynnwys gofalwyr sy'n berthnasau), yn cynnig 159 o leoliadau. Mae 135 o leoliadau'n llawn ar hyn o bryd. Os na ellir diwallu'r angen yn fewnol, mae plant yn mynd at ofalwyr asiantaeth neu i ofal preswyl. Mae sefydlogrwydd lleoliadau i blant sydd ag anghenion cymhleth yn her; y llynedd, symudodd 9.5% o blant fwy na dwywaith (cyfartaledd Cymru gyfan oedd 9.6%), er bod rhai o'r symudiadau hyn wedi'u cynllunio yn eu pecyn gofal.

Rydym hefyd yn cefnogi 161 o blant a phobl ifanc gyda gwasanaethau ar ymylon gofal, a 98 o bobl ifanc hyd at 25 oed sydd wedi gadael gofal. Mae 63% o blant sydd â chynllun gofal a chymorth yn cael eu cefnogi i fyw gartref gyda'u teulu.

Nodwyd bod 83 o ofalwyr ifanc eleni ac fe gawsant eu hatgyfeirio at ein darparwyr gwasanaeth i ofalwyr ifanc.

Mesuryddion Perfformiad Allweddol Cenedlaethol

(data diweddaraf sydd ar gael wedi'i ddarparu)

SAG1: Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chydgyhyrchu canlyniadau lles personol y mae pobl yn dymuno eu cyflawni.

Nid yw 65% o oedolion a dderbyniodd gymorth gan y gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth wedi cysylltu â'r gwasanaeth eto yn ystod y flwyddyn.

Cwblhawyd 95% o asesiadau ar gyfer plant o fewn y terfynau amser statudol.

SAG2: Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol pobl a'u lles emosiynol.

Cyfradd yr oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu hŷn oedd 2.94.

Canran yr oedolion a oedd wedi cwblhau cyfnod o ailalluogi a chanddynt a) becyn gofal a chymorth llai chwe mis yn ddiweddarach oedd 16%, a b) ddim

pecyn gofal chwe mis yn ddiweddarach oedd 56%.

Cyfartaledd oed oedolion a oedd yn dod i gartrefi gofal preswyl oedd 85.

Roedd 71% o blant dan ofal yn gweld deintydd cofrestredig o fewn 3 mis i ddechrau derbyn gofal.

Roedd 97% o blant dan ofal wedi cofrestru gyda Meddyg Teulu.

SAG3: Cymryd camau i warchod a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed.

Cwblhawyd 95% o ymholiadau amddiffyn oedolion o fewn terfynau amser statudol.

Roedd 3.2% o blant ar gofrestrau amddiffyn plant yr awdurdod lleol yn ailgofrestrïadau.

Roedd plant ar y gofrestr gwarchod plant yn ystod y flwyddyn am gyfartaledd o 217 diwrnod.

SAG4: Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan yn y gymdeithas.

Cyrhaeddodd 61.5% o blant dan ofal y dangosydd pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 2 a chyrrhaeddodd 12.5% o blant dan ofal y dangosydd pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 4.

Profodd 6% o blant dan ofal un newid neu fwy yn yr ysgol yn ystod cyfnodau o dderbyn gofal am resymau ar wahân i drefniadau trosglwyddo.

SAG5: Cefnogi pobl i ddatblygu a chynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach.

Cefnogwyd 63% o blant i barhau i fyw gyda'u teulu

Dychwelodd 9.6% o blant dan ofal adref o ofal yn ystod y flwyddyn.

Roedd 9.5% o blant dan ofal ar 31 Mawrth wedi bod mewn tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn.

SAG6: Gweithio gyda a chefnogi pobl i gyflawni gwell lles economaidd, i gael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n diwallu eu hanghenion.

Roedd 71.4% o'r rhai a oedd yn gadael gofal mewn addysg, hyfforddiant neu waith ar ôl 12 mis a 73.7% o rai'n gadael gofal mewn addysg, hyfforddiant neu waith 24 mis ar ôl gadael gofal.

Profodd 6.1% o'r rhai a oedd yn gadael ddigartrefedd yn ystod y flwyddyn.

